# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30-10.00)**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10.00

## 2 Offerynnau a drafodwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

10.00-10.05

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)656 - Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 1 - 14)

**CLA(5)-34-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-34-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**2.2 SL(5)657 - Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 15 - 30)

**CLA(5)-34-20 - Papur 4** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 5** - Rheoliadau

**CLA(5)-34-20 – Papur 6** – Memorandwm Esboniadol

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10.05-10.10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)655 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 31 – 38)

**CLA(5)-34-20 – Papur 7** – Adroddiad

**CLA(5)-34-20 – Papur 8** – Rheoliadau

**CLA(5)-34-20 – Papur 9** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.2 SL(5)659 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 39 – 53)

**CLA(5)-34-20 – Papur 10** – Adroddiad

**CLA(5)-34-20 – Papur 11** – Gorchymyn

**CLA(5)-34-20 – Papur 12** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-34-20 – Papur 13** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 11 Tachwedd 2020

**3.3 SL(5)660 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 54 – 72)

**CLA(5)-34-20 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-34-20 – Papur 15** – Rheoliadau

**CLA(5)-34-20 – Papur 16** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-34-20 – Papur 17** – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 13 Tachwedd 2020

**CLA(5)-34-20 – Papur 18** – Datganiad ysgrifenedig, 12 Tachwedd 2020

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

10.10-10.15

4.1 **SL(5)654 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 73 - 85)

**CLA(5)-34-20 - Papur 19** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 20** - Rheoliadau

**CLA(5)-34-20 - Papur 21** - Memorandwm Esboniadol

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

10.15-10.20

5.1 **SL(5)648 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 86 - 89)

**CLA(5)-34-20 - Papur 22** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 23** - Ymateb Llywodraeth Cymru

5.2 **SL(5)649 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 90 - 96)

**CLA(5)-34-20 - Papur 24** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 25** - Ymateb Llywodraeth Cymru

5.3 **SL(5)653 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 97 - 101)

**CLA(5)-34-20 - Papur 26** - Adroddiad

**CLA(5)-34-20 - Papur 27** - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.20-10.25

**6.1 WS-30C(5)204 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 102 - 108)

**CLA(5)-34-20 - Papur 28** - Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-34-20 - Papur 29** - Sylwebaeth

**6.2 WS-30C(5)205 - Rheoliadau Anifeiliaid, Iechyd Anifeiliaid Dyfrol, Rhywogaethau Estron Ymledol, Deunydd a Hadau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Ymadael yr UE) 2020**

(Tudalennau 109 - 118)

**CLA(5)-34-20 - Papur 30** - Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-34-20 - Papur 31** - Sylwebaeth

## 7 Papur(au) i'w nodi

10.25-10.30

**7.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Bil Pysgodfeydd y DU**

(Tudalennau 119 - 121)

**CLA(5)-34-20 - Papur 32** - Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 17 Tachwedd 2020

**7.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Etholiad y Senedd yn 2021 ac adroddiad y Grwp Cynllunio Etholiadau**

(Tudalennau 122 - 126)

**CLA(5)-34-20 - Papur 33** - Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Tachwedd 2020

**CLA(5)-34-20 - Papur 34** - Llythyr at y Prif Weinidog, 12 Tachwedd 2020

**7.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Y Cynllun Taliad Sylfaenol a Fframwaith Deddfwriaethol Cymorth Gwledig 2021**

(Tudalen 127)

**CLA(5)-34-20 - Papur 35** - Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 18 Tachwedd 2020

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.30

## 9 Papur briffio ar y trefniadau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021

10.30-10.35 (Tudalennau 128 - 132)

**CLA(5)-34-20 – Papur 36** – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU – trafod yr adroddiad drafft

10.35-10.45 (Tudalennau 133 - 165)

**CLA(5)-34-20 – Papur 37** – Adroddiad drafft

## 11 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

10.45-11.15 (Tudalennau 166 - 222)

**CLA(5)-34-30 – Papur 38** – Adroddiad drafft

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol – trafod materion allweddol

11.15-11.25 (Tudalennau 223 - 229)

**CLA(5)-34-20 – Papur 39** – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**CLA(5)-34-20 – Papur 40** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 30 Tachwedd 2020

# SL(5)656 - Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") i ddiweddaru croesgyfeiriadau at ddarpariaethau yn Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau RPQ 2019"), sy'n codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan Reoliadau Cymwysterau a Gwasanaethau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Gwnaeth Rheoliadau 2019 ddiwygiadau i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 mewn perthynas â chydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru yn unol â Rheoliadau RPQ 2019.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar Ddiwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (am 11.00 pm ar 31 Rhagfyr 2020).

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2020, mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ym mharagraffau 2.1 a 3(b) o fersiwn Gymraeg y Memorandwm Esboniadol mae cyfeiriadau at “Ddeddf Addysg 2020”, sy'n ymddangos fel gwall argraffyddol a ddylai, yn lle hynny, ddweud “Ddeddf Addysg 2002”.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol mewn perthynas â’r ail bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**17 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1246 (Cy. 281)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent hefyd wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau yn adran 132 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/444 (Cy. 107)). Mae'r diwygiadau technegol hyn yn codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/312) gan Reoliadau Cymwysterau a Gwasanaethau Proffesiynol (Diwygiadau a Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1038).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1246 (Cy. 281)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *2 Tachwedd 2020*

*Gwnaed* *9 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *11 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor y Gweithlu Addysg fel sy'n ofynnol gan adran 132(4)(**2**) o'r Ddeddf honno, a thrwy arfer y pwerau ym mharagraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol y Senedd ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

(**1**) 2002 p. 32; am ystyr "prescribed" a "regulations", *gweler* adran 212(1). Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) Yn adran 132(4), amnewidiwyd y geiriau "Education Workforce Council" gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5), adran 48, Atodlen 3, Rhan 1, paragraff 1(1) a (4).

(**3**) 2018 p. 16.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yr ystyr a roddir i "IP completion day" yn adran 39(1) i (5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**1**).

**Diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae rheoliad 3(2) o Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1)(c) o baragraff 4 a amnewidiwyd o Atodlen 2, yn lle "pharagraff 48" rhodder "pharagraff 50 neu baragraff 51".

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
9 Tachwedd 2020

(**1**) 2020 p. 1.
(**2**) O.S. 2019/444 (Cy. 107).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer “Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020”**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig “Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020”

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad i'r memorandwm hwn

**Kirsty Williams AS**
**Y Gweinidog Addysg**

**11 Tachwedd 2020**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) ("Rheoliadau 2019") sy'n codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau RPQ 2019") gan Reoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau PQS 2020").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Gwneir yr offeryn hwn o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 11 a pharagraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"). Fel y nodir yn y datganiad Gweinidogol yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, bydd yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yr offeryn hwn ddydd Llun 2 Tachwedd ac mae wedi gosod ei adroddiad. Gellir gweld yr adroddiad yn https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13657/cr-ld13657-w.pdf ac mae'n nodi bod y Pwyllgor yn cytuno mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn yw'r weithdrefn negyddol. Mae'r offeryn yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol ac, fel y cyfryw, mae'n briodol ei fod yn agored i gael ei ddirymu.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

a) Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu ddiffygion eraill sy'n codi o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau canlynol fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

b) Ynghyd â phwerau Deddf yr UE (Ymadael) 2018, mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Addysgu 2002 mewn perthynas â rhagnodi gofynion i gael eu bodloni er mwyn cadw statws athro cymwysedig. Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i Senedd Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

***Beth oedd unrhyw gyfraith berthnasol yr UE yn ei wneud cyn y diwrnod ymadael?***

4.1 Gwnaeth Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ddiwygiadau i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 mewn perthynas â chydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru yn unol â Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

***Pam y mae'n cael ei newid?***

4.2 Mae'r offeryn hwn yn gwneud mân newidiadau canlyniadol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn unol â'r newidiadau a wnaed i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 gan Reoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

***Beth y bydd yn ei wneud nawr?***

4.3 Mae'r offeryn yn gwneud mân newidiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 i ddiweddaru croesgyfeiriadau at ddarpariaethau yn Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 fel y'u newidiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020. Ni chaiff lawer o effaith ar bolisi addysg Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymwysterau athrawon, os o gwbl; nod yr offeryn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyfredol i barhau i fod yn weithredol.

**5. Ymgynghori**

5.1 Gan nad oes newid mewn polisi, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Unig nod yr offeryn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyfredol i barhau i fod yn weithredol ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Rydym wedi ymgynghori â Chyngor y Gweithlu Addysg fel yr awdurdod cymwys dros athrawon yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft i'r CGA eu hystyried rhwng 10 Medi 2020 a 21 Medi 2020. Nododd y CGA ei fod yn fodlon ar y rheoliadau ac nid oedd ganddo ragor o sylwadau i'w gwneud. Bydd ymgysylltu parhaus â'r CGA fel yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am weithredu'r rheoliadau.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur a'u nod yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyfredol i barhau i fod yn weithredol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu na fydd unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol o ganlyniad i'r offeryn.

6.2 Nid yw'r Rheoliadau diwygio hyn yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol a nodir yn adrannau 77 i 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nac

ar y partneriaid statudol fel y'u nodir yn adrannau 72 i 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Atodiad
# Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

## Rhan 1
## Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fydd hynny'n ofynnol. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

| **Datganiad** | **Lle mae'r gofyniad** | **I bwy y mae'n gymwys** | **Beth sy'n ofynnol drwyddo** |
|---|---|---|---|
| Sifftio | Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7<br><br>*Paragraff 3(7) (disgwylir y bydd yn ofyniad ar Weinidogion Cymru mewn Rheolau Sefydlog)* | Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS Negyddol<br><br>Mae Paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad | Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n gymwys, pam mae'n anghytuno ag argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel y pwyllgor sifftio) |
| Priodolrwyd d | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer | Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam gweithredu rhesymol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | |
| Cydraddoldebau | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio pa ddiwygiad, diddymiad neu ddirymiad, os o gwbl, a wneir i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wneir yn unol â hwy.<br><br>Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. ai dim ond mân newidiadau neu dechnegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig. |
| Is-ddirprwyaeth | Paragraff 30, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a | Datganiad i esbonio pam mae'n briodol creu pŵer a is-ddirprwywyd o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfu nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfu nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig | |
| Brys | Is-baragraffau (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7 | Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7 | Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud yr Offeryn Statudol drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno. |

# Rhan 2

## Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**1. Datganiad(au) sifftio**

1.1 Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 fod yn agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Senedd (h.y. y weithdrefn negyddol)", a hynny am fod yr offeryn hwn yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau technegol y bwriedir iddynt alluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyfredol i barhau i fod yn weithredol.

**2. Datganiad priodoldeb**

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2.1:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol, a hynny am fod y diwygiadau yn dechnegol eu natur ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

**3. Rhesymau da**

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 3.1:

"Yn fy marn i mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam gweithredu rhesymol, a hynny am fod yr offeryn yn gwneud diwygiadau technegol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n cwmpasu cymwysterau athrawon yng Nghymru."

**4. Cydraddoldebau**

4.1 Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi gwneud y datganiad canlynol

“Mae'r offeryn yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny”.

4.2 Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn, rwyf i, Kirsty Williams, wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

**5. Esboniadau**

5.1 Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth) o brif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

**6. Troseddau**

6.1 Ddim yn berthnasol

**7. Is-ddirprwyaeth ddeddfwriaethol**

Ddim yn berthnasol

**8. Brys**

8.1 Ddim yn gymwys.

# SL(5)657 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 er mwyn cywiro gwall mewn cyfeiriadau.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Bydd y cynllun a chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn parhau i gael eu llywodraethu gan yr UE hyd nes y bydd y rhaglenni a'r gweithgareddau hynny'n cau, fel y nodir yn Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd cyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol yn uniongyrchol yn y DU ac ni fydd yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, o ganlyniad i adran 7A ac adran 3(2)(bi) o Ddeddf Ymadael â'r UE 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gwneir diwygiadau, felly, i Reoliadau 2019, sy'n ymwneud â Rheoliadau 2016, i adlewyrchu'r sefyllfa bod deddfwriaeth yr UE y cyfeirir ati yn Rheoliadau 2016 yn cael effaith yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael, a Deddf yr UE (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn union cyn Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu am 11.00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2020, mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ar wahân i'r rheini a nodir uchod, ni nodwyd unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1249 (Cy. 282)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

# RHEOLI MOROL, CYMRU

# Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/370) (Cy. 91)) sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, ym meysydd pysgodfeydd a rheoli morol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn cywiro gwall yn rheoliad 3 o Reoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, sy'n ymwneud â diwygiadau a wnaed i Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/559 (Cy. 81)).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth sydd yn amnewid y cywiriadau a wneir gan reoliad 4 o Reoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r DU) 2019, sy'n ymwneud â

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

diwygiadau a wneir i Reoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/665 (Cy. 182)), er mwyn adlewyrchu telerau Cytundeb Ymadael y DU â'r UE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1249 (Cy. 282)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

# RHEOLI MOROL, CYMRU

## Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni* | *9 Tachwedd 2020* |
| *Gwnaed* | *10 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *12 Tachwedd 2020* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â'r gofyniad i ymgynghori o dan amgylchiadau penodol) a pharagraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol Senedd Cymru(**2**) ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

(**1**) 2018 p. 16. Mae diwygiadau i baragraff 21 o Atodlen 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**Diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.** Mae Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**Diwygio rheoliad 3 (diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011)**

**3.** Yn rheoliad 3(2), yn yr erthygl 3A(6)(b) newydd sydd i'w mewnosod yng Ngorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**2**) gan y rheoliad hwnnw, yn lle "regulation 9(1) of the Hazardous Waste (England and Wales) Regulations 2005" rhodder "regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(**3**)".

**Amnewid rheoliad 4 (diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016)**

**4.** Yn lle rheoliad 4 rhodder—

> **"Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016**
>
> **4.** Yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016(**4**), yn lle "yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd" rhodder ", i'r graddau y bo'n ofynnol at ddibenion cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu, yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y mae'n cael effaith yn rhinwedd adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (gan gynnwys, i'r graddau y bo'n ofynnol, fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd) ac mae i "cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu" yr ystyr a roddir i "relevant separation agreement

---

(**1**) O.S. 2019/370 (Cy. 91).

(**2**) O.S. 2011/559 (Cy. 81), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141) ac O.S. 2015/1417 (Cy. 141); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**4**) O.S. 2016/665 (Cy. 182), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

law" yn adran 7C(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018"(**1**)".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
10 Tachwedd 2020

(**1**) O dan Erthygl 138 o'r cytundeb ymadael (fel y diffinnir "withdrawal agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020) ac adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bydd rhaglenni a gweithgareddau penodol yr Undeb yr ymrwymwyd iddynt o dan fframwaith ariannol amlflwydd 2014-20 a phersbectifau ariannol blaenorol yn parhau i gael eu llywodraethu gan gyfraith berthnasol yr UE sy'n gymwys hyd nes y daw'r rhaglenni a'r gweithgareddau hynny i ben. Mewnosodwyd adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan adran 5 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Mewnosodwyd adran 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan adran 26(2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwledig a Deddfwriaeth sy'n rhan o Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
12 Tachwedd 2020

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (yr "offeryn") yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys i Gymru a pharth Cymru, ym meysydd pysgodfeydd a rheoli morol.

Yn benodol, mae'r offeryn yn gwneud mân gywiriad i'r offeryn statudol blaenorol (Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael yr UE) 2019) ("Rheoliadau 2019") a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf Ymadael") oherwydd camgymeriad yn y cyfeiriadau a hefyd i gydnabod y bydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn parhau i fod yn gymwys i'r rhaglenni a'r gweithgareddau a ariennir o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) tan y caeir y rhaglenni a'r gweithgareddau hynny.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf Ymadael, er mwyn mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r UE.

Fel y nodir yn natganiad y Gweinidog yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir bod yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'r offeryn yn gwneud mân ddiwygiadau ac felly dylai fod yn destun cael ei ddirymu.

Ystyriodd y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ddrafft o'r rheoliadau hyn ar 9 Tachwedd 2020, a chytunodd fod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn.  Gellir gweld copi o adroddiad y LJCC a gyhoeddwyd drwy ddilyn y linc a ganlynol:

https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld1392/cr-ld1392-w.pdf.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Ddeddf Ymadael yn trosi'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys fel y bydd yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu yn gyfraith ddomestig ac yn dargadw cyfreithiau a wnaed yn y

DU sy'n rhoi rhwymedigaethau'r UE ar waith. Mae'r Ddeddf Ymadael hefyd yn creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth i ddelio â diffygion a fyddai'n deillio o ymadawiad y DU. Mae adran 11 a pharagraff 1 o Atodlen 2 y Ddeddf Ymadael yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion.

Bydd yn ofynnol i Offerynnau Statudol (OSau) Cymru sy'n cywiro diffygion yn neddfwriaeth ddomestig Cymru am fod y DU yr ymadael â’r UE ac y cynigir eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol gael eu hystyried gan bwyllgor sifftio, yn unol â pharagraff 1(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael. Diben y pwyllgor sifftio yw penderfynu ai’r weithdrefn penderfyniad negyddol yw gweithdrefn briodol Senedd Cymru ar gyfer yr offeryn statudol perthnasol. At ddibenion OSau Cymru, cyflawnir swyddogaethau'r pwyllgor sifftio gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiadau perthnasol a nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben yr offeryn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU wedi ymadael â’r UE. Mae hyn yn golygu cadw elfennau sylweddol o gyfundrefn ddeddfwriaethol yr UE ym meysydd pysgodfeydd a rheoli morol (ar ôl mynd i'r afael â’r diffygion a nodwyd).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 er mwyn cywiro camgymeriad yn y cyfeiriadau. Mae'r cyfeiriad presennol at "Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005" yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016. Roedd diwygiadau blaenorol a wnaed gan Reoliadau 2019 yn seiliedig ar y ffaith na fyddai'r DU, wrth ymadael â'r UE, bellach yn cael elwa ar gynllun yr EMFF ac y gallai cyllid ddod o Drysorlys EM. Hefyd, byddai Rheoliad EMFF 508/2014 yr UE yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir. Fodd bynnag, ers gwneud Rheoliadau 2019, cytunwyd ar y Cytundeb Ymadael ac effaith erthygl 138 o’r Cytundeb Ymadael yw y bydd yr EMFF (a ariennir o dan MFF 2014-2020) yn parhau i gael ei rheoli gan yr UE tan y caiff y rhaglenni a’r gweithgareddau eu cau. O ganlyniad i adran 7A ac adran 3(2)(bi) y Ddeddf Ymadael (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, bydd cyfraith gymwys yr UE (gan gynnwys Rheoliad EMFF 508/2014 yr UE) yn parhau i fod yn uniongyrchol gymwys yn y DU ac ni ddaw’n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. O ganlyniad, bydd yr holl ddiwygiadau a wnaed yn Rheoliadau 2019 sy’n ymwneud â

Rheoliadau 2016 bellach yn cael eu hepgor a rhoddir yn eu lle ddarpariaeth i adlewyrchu sefyllfa deddfwriaeth yr UE y cyfeiriwyd ati yn Rheoliadau 2016 ac a gaiff effaith yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael/y Ddeddf Ymadael.

## 5. Ymgynghori

Gan nad yw polisi yn newid, ni chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Unig ddiben yr offeryn hwn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi domestig presennol barhau'n ddigyfnewid wrth i'r DU ymadael â'r UE.

Fel y nodir ym mharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cynigion i weithredu'r offeryn hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Nid oes asesiad o'r effaith wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan na ragwelir y cânt effaith ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

# Atodlen: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

## Rhan 1: Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau y mae'n bosibl y bydd gofyn i Weinidogion Cymru eu gwneud o dan Ddeddf 2018.  Mae'r tabl yn nodi hefyd y datganiadau y mae'n bosibl y bydd gofyn i Weinidogion y Goron eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ymrwymo i'w gwneud os bydd angen. Fe welwch y datganiadau sydd eu hangen yn Rhan 2 yr Atodiad hwn.

| Datganiad | Lle mae'r gofyn | I bwy mae'n berthnasol | Beth y gofynnir amdano |
|---|---|---|---|
| Sifftio | Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7<br><br>Paragraff 3(7) (disgwylir iddo fod yn ofyn ar Weinidogion Cymru mewn Rheolau Sefydlog) | Gweinidogion Cymru, wrth arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS Negyddol<br><br>Mae Paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad | Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn ddilyn y weithdrefn negyddol ac os yn gymwys, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad Pwyllgor CLA (fel y pwyllgor sifftio). |
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen Schedule 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu wrth gyd-arfer pwerau yn Atodlen 2.<br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad bod yr OS yn gwneud dim mwy nag sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a | Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn rhesymol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 23(1) neu wrth gyd-arfer pwerau yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | |
| Cydraddoldeb | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7<br>7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu wrth gyd-arfer pwerau yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad sy’n esbonio pa ddiwygiadau, dirymiadau a diddymiadau, os o gwbl, sy’n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a’r ddeddfwriaeth a wneir trwyddynt.<br>Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi’r sylw priodol i’r angen i ddiddymu camwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu wrth gyd-arfer pwerau yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad i esbonio’r offeryn, nodi’r ddeddf berthnasol cyn y dyddiad ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn e.e. ai dim ond newid mân neu dechnegol a fwriedir i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu wrth gyd-arfer pwerau yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad yn esbonio’r ‘rhesymau da’ dros greu trosedd, a’r gosb gysylltiedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Is-ddirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron wrth arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfu na chaiff Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.<br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfu na chaiff Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer. | Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath. |
| Brys | Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7 | Gweinidogion Cymru wrth arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond gan ddefnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7. | Datganiad fod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud yr OS trwy ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno. |

# Rhan 2

## Datganiadau sydd eu hangen wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### 1. Datganiad(au) sifftio

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio'r pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 fod yn destun cael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad i'r perwyl hwnnw gan Senedd Cymru (h.y. y weithdrefn negyddol). Dyma'r sefyllfa am fod y newidiadau'n rhai mân ac yn dechnegol eu natur."

### 2. Datganiad ynghylch priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio'r pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud rhagor nag sy'n briodol. Dyma'r sefyllfa am fod yr holl newidiadau'n cael eu gwneud yn unswydd er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi yn sgil ymadael â'r UE."

### 3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio'r pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn ffordd resymol o weithredu. Daw manteision o barhau â deddfwriaeth ymarferol ynghylch safonau ansawdd aer ar ôl ymadael â'r UE."

### 4. Cydraddoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

“Nid yw’r offeryn yn diwygio, dirymu nac yn diddymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 nac yn Neddf Cydraddoldeb 2010 nac Is-ddeddfwriaeth a wneir mewn Deddfau eraill.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio’r pwerau deddfu yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“O ran yr offeryn, yr wyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi’r sylw dyledus i’r angen am ddiddymu camwahaniaethu, aflonyddu, erlid ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

**5. Esboniadau**

Mae’r datganiad esboniadau wedi’i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

**6. Troseddau**

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

**7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol**

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

**8. Brys**

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

# SL(5)655 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

O dan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig i bobl sy'n atebol am gyfraddau annomestig.

Ar hyn o bryd mae cynnwys hysbysiadau galw am dalu yn cael eu pennu gan :Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"). Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau 2017. Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 62 a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988).

Yr unig newid a wneir gan y Rheoliadau yw Atodlen 2 i Reoliadau 2017, sy'n pennu cynnwys y nodiadau esboniadol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r hysbysiadau galw am dalu a roddir i drethdalwyr i'w helpu i ddeall eu biliau ardrethi. Mae'r newid yn sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol yn cael ei dileu yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (pan fydd y drefn Cymorth Gwladwriaethol yn peidio â bod yn berthnasol i'r DU).

Bydd y Rheoliadau'n berthnasol i hysbysiadau galw am dalu a gyflwynir mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er y nodir y caiff y paragraff â'r teitl "Cymorth gwladwriaethol" ei hepgor o'r Nodiadau Esboniadol a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2017, nid yw'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn egluro'r hyn a gynigir i ddisodli'r wybodaeth hon, o ran unrhyw drefn cymorth gwladwriaethol a allai fod ar waith ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chwblhau unrhyw gyfnod pontio. Gallai cael gwybodaeth o'r fath ymlaen llaw fod o gymorth i dalwyr ardrethi annomestig.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1250 (Cy. 283)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan neu ar ran awdurdodau bilio yng Nghymru.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu, gan gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chyfundrefn Cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd ("yr Wybodaeth o ran Cymorth Gwladwriaethol").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r Wybodaeth o ran Cymorth Gwladwriaethol o Atodlen 2 i Reoliadau 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1250 (Cy. 283)

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 62 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988((**1**), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

(**1**) 1988 p. 41; gweler adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) gan adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1 a 44(3) o Atodlen 5, a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, ac adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**2.** Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**1**) (Nodiadau Esboniadol), hepgorer y paragraff o'r enw "Cymorth gwladwriaethol".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
9 Tachwedd 2020

(**1**) O.S. 2017/113 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/122 (Cy. 28).

**Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before the Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Rebecca Evans MS**
**Minister for Finance and Trefnydd**
11 November 2020

## Description

1. Under the Non-Domestic Rating (Collection and Enforcement) (Local Lists) Regulations 1989, billing authorities are required to serve non-domestic rates demand notices on people liable for non-domestic rates.

2. The contents of demand notices are currently prescribed by the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017 (the 2017 Regulations). The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 (the Regulations) amend the 2017 Regulations. The only change made by the Regulations is to Schedule 2 to the 2017 Regulations, which prescribes the content of the explanatory notes that must accompany the demand notices issued to ratepayers to help them to understand their rates bills. The change ensures that information relating to State Aid is removed following the end of the transition period for the UK's exit from the European Union (when the State Aid regime will cease to apply to the UK).

## Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

3. There are no matters of special interest to the Committee.

## Powers

4. The Regulations are made under sections 62 and paragraphs 1 and 2(2)(h) of Schedule 9 to, the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act). These powers were transferred, in relation to Wales, from the Secretary of State to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. The functions of the National Assembly for Wales were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

5. The 2017 Regulations were made to coincide with the 2017 revaluation of non-domestic rates in Wales. Previous regulations – the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993 (the 1993 Regulations) – had been made by the Secretary of State and were amended frequently. The Welsh Government took the opportunity to consolidate all the amendments in the 2017 Regulations. The 2017 Regulations replaced the 1993 Regulations, with the only subsequent substantive changes being made to the explanatory notes prescribed in Schedule 2 to the 2017 Regulations. The explanatory notes must accompany the demand notices issued to ratepayers by billing authorities (county and county borough councils in Wales).

6. The Regulations are subject to the negative resolution procedure (section 143(3) of the 1988 Act).

## Purpose and intended effect of the legislation

7. Billing authorities are required to serve non-domestic rating demand notices (rates bills) under Part II of the Non-Domestic Rating (Collection and

Enforcement) (Local Lists) Regulations 1989. The only substantive change made by the Regulations is to remove all information relating to the State Aid regime in the prescribed explanatory notes which billing authorities must make available to ratepayers to help them in understanding their bills. The explanatory notes can be provided in either paper or electronic form. The Regulations will apply to demand notices issued with respect to financial years beginning on or after 1 April 2021.

8. The content of the explanatory notes that accompany demand notices are reviewed on a regular basis to ensure they accurately reflect the system for non-domestic rates in Wales. Currently, part of the prescribed information that billing authorities are required to provide in the explanatory notes is the State Aid rules that operate in Wales.

9. The paragraph in the explanatory notes which deals with State Aid will no longer be relevant following the end of the transition period for the UK's exit from the European Union in December 2020. For the tax year beginning April 2021, the State Aid regime will no longer apply. These Regulations amend the 2017 Regulations so as to delete the paragraph dealing with State Aid.

10. The Regulations will apply to demand notices issued by or on behalf of billing authorities in Wales with respect to financial years beginning on or after 1 April 2021.

**Consultation**

11. No formal consultation has been undertaken. The Regulations make a technical amendment to the explanatory notes prescribed within Schedule 2 to the 2017 Regulations. The amendment is necessitated by the UK's exit from the EU and ensures that the information which billing authorities provide with demand notices is up-to-date. As a result, they are mainly of interest to billing authorities and have no effect on ratepayers other than to ensure they are provided with the correct information with their rates bills. Billing authorities have been informed of the intention to make these Regulations and their effect.

**Regulatory Impact Assessment**

12. The Regulations make only a necessary change to the content of the explanatory notes that billing authorities are required to supply with demand notices. They are technical in nature, of interest mainly to billing authorities and have limited effect on ratepayers. As such, no regulatory impact assessment has been prepared.

# SL(5)659 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mewn perthynas â Chymru, caiff y lluosydd ardrethu annomestig ei gyfrifo yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan na chaiff rhestrau newydd eu llunio. Nid yw rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i swm gwahanol a bennir felly fod yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi y flwyddyn ariannol flaenorol yw 294.3.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi mai'r swm ar gyfer eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 yw 292.6.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaethpwyd y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn cyn i'r Senedd gymeradwyo adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021, pa un bynnag sydd gyntaf.

(Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi bod disgwyl i ddadl y Senedd ar setliad llywodraeth leol gael ei chynnal ddechrau mis Mawrth 2021.)

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae un pwynt wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(i) a 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn bwysigrwydd y Gorchymyn hwn, a'i effaith ar y setliadau refeniw llywodraeth leol blynyddol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"This Order sets the increase in the non-domestic rating (NDR) multiplier for Wales for the financial year 2021-22. It reflects the use of the Consumer Prices Index (CPI) rather than the Retail Prices Index (RPI) to calculate the multiplier.*
>
> *Under the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act), the annual increase in the multiplier should be calculated using the RPI figure for the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2021 22, the RPI figure would have been 294.3.*
>
> *The multiplier is applied to the rateable value (RV) of each non-domestic property to calculate its non domestic rates bill. The Order applies the CPI figure in place of the RPI figure. This results in a smaller increase in the 2021-22 rates bills to be paid by businesses and other non-domestic property owners than would be the case if the RPI figure were used.*
>
> *All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.*
>
> *The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Senedd as part of the annual local government finance reports. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.*
>
> *There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.*
>
> *Using CPI rather than RPI to increase the multiplier in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2021-22. The reduction will be fully funded by the Welsh*

*Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities or police budgets.*

*CPI has been used to calculate the multiplier in Wales since 2018-19 and the Welsh Ministers have determined that CPI should be used to calculate the multiplier for future years. The use of CPI since 2018-19 has been achieved through annual orders. To make the change on a permanent basis requires primary legislation to amend the Local Government Finance Act 1988. Provisions are included in the Local Government and Elections (Wales) Bill to achieve this. It is expected that the amendment will have effect in time for the 2022-23 financial year."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1254 (Cy. 285)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 294.3.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 yw 292.6.

Yn unol â pharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, ni fydd y Gorchymyn hwn ond yn dod i rym os yw'n

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1254 (Cy. 285)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *12 Tachwedd 2020* |

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Trysorlys gan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, mae'r pŵer bellach wedi ei freinio yng Ngweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Senedd Cymru, ar yr amod y cymeradwyir y Gorchymyn cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf)(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y lluosydd ardrethu annomestig**

**2.** At ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, pennir mai 292.6 yw B.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
11 Tachwedd 2020

(**1**) Mae cyfeiriadau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2020.
I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Rebecca Evans MS**
**Minister for Finance and Trefnydd**
**12 November 2020**

**Contents**

PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM 3
1. Description 3
2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee 3
3. Legislative background 4
4. Purpose and Intended Effect of the Legislation 4

PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT ........................................ 6

ANALYSIS OF OTHER EFFECTS AND IMPACTS........................................ 7

**PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM**

**1. Description**

This Order sets the increase in the non-domestic rating (NDR) multiplier for Wales for the financial year 2021-22. It reflects the use of the Consumer Prices Index (CPI) rather than the Retail Prices Index (RPI) to calculate the multiplier.

Under the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act), the annual increase in the multiplier should be calculated using the RPI figure for the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2021-22, the RPI figure would have been 294.3.

The multiplier is applied to the rateable value (RV) of each non-domestic property to calculate its non-domestic rates bill. The Order applies the CPI figure in place of the RPI figure. This results in a smaller increase in the 2021-22 rates bills to be paid by businesses and other non-domestic property owners than would be the case if the RPI figure were used.

The formula used for calculating the NDR multiplier in a non-revaluation year is:

(A x B) / C.

A is the multiplier for the preceding financial year
B is the RPI for September of the preceding financial year
C is the RPI for September of the financial year two years before.

Welsh Ministers may substitute a figure for B which is less than the RPI figure. As CPI is used as the measure for increasing the multiplier, B is calculated based on CPI.

The substituted figure for B is calculated dividing CPI from September of the preceding financial year by CPI from September of the financial year two years before and multiplying by RPI for September of the financial year two years before. For 2021-22, B has been calculated as 292.6.

This results in the multiplier for 2021-22 being 0.538 instead of 0.541.

**2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

Under the 1988 Act, an order which enables the multiplier to be increased at below the level of RPI must be approved by the Senedd through a made affirmative resolution procedure (paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act). Under the procedure, after the Order is made, it must be laid before the Senedd for approval.

The relevant provision specifically provides that the Order must be approved by the Senedd before the votes on the Local Government Finance Reports (the final local government settlement and final police settlement) take place, or before 1 March in the preceding financial year, whichever is earlier. The debate on the

local government settlement for 2021-22 is expected to take place in early March 2021.

## 3. Legislative background

Under the 1988 Act, for financial years in which new rating lists do not apply (i.e. all years which are not revaluation years), the default position for determining the non-domestic rating multiplier for Wales is to apply the formula set out in paragraph 3B to Schedule 7 to the 1988 Act. An element in that formula is the RPI for September of the financial year preceding the year concerned. The financial year beginning 1 April 2021 is not a revaluation year and therefore there will not be a new rating list.

Under paragraph 5(3) of Schedule 7 to the 1988 Act, the Welsh Ministers have the power to increase a multiplier at below the level of inflation as measured by RPI. It is this power which the Welsh Ministers propose to exercise in making this Order.

The Welsh Ministers have adopted the approach of increasing the multiplier using CPI rather than RPI for each financial year since 2018-19.

As the Welsh Government is diverging from the prescribed practice of increasing the multiplier by RPI, Ministers are required, under paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act, after making the Order to limit the increase at below RPI, to lay it before the Senedd for approval.

The Order is subject to a made/provisional affirmative procedure and must be approved by the Senedd for it to be effective. It is also a requirement of the 1988 Act that any such Order is approved before the local government finance reports (for unitary authorities and police and crime commissioners) are approved by the Senedd, or before 1 March in the preceding financial year, whichever is earlier. This requirement for prior agreement of the multiplier arises because it plays a vital part in calculating the total funding available in the annual settlements.

The debate on the Local Government Finance Report for unitary authorities for 2020-21 is expected to be scheduled for debate in early March 2021. The debate to approve the Order is scheduled to take place on 8 December 2020.

## 4. Purpose and Intended Effect of the Legislation

The Order will have the effect of increasing the NDR multiplier by CPI rather than RPI for the financial year 2021-22. By applying CPI for 2021-22, the multiplier will be set at 0.538.

This will mean that non-domestic property owners and occupiers in Wales will receive lower rates bills for 2021-22 than they would have if RPI was used.

Primary legislation does not currently provide the Welsh Ministers with powers to permanently change the rate of inflation used to calculate the multiplier from RPI to CPI. Therefore, the Order will apply for 2021-22 only.

Similar orders were made to effect the equivalent change for 2018-19 to 2020-21.

All owners or occupiers of non-domestic properties who pay rates will benefit from the change. Even properties which receive significant amounts of rates relief will benefit as the residual amounts will be calculated using a lower multiplier.

All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.

The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Senedd as part of the annual local government finance reports. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.

There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.

Using CPI rather than RPI to increase the multiplier in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2021-22. The reduction will be fully funded by the Welsh Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities or police budgets.

CPI has been used to calculate the multiplier in Wales since 2018-19 and the Welsh Ministers have determined that CPI should be used to calculate the multiplier for future years. The use of CPI since 2018-19 has been achieved through annual orders. To make the change on a permanent basis requires primary legislation to amend the Local Government Finance Act 1988. Provisions are included in the Local Government and Elections (Wales) Bill to achieve this. It is expected that the amendment will have effect in time for the 2022-23 financial year.

## 5. Consultation

No consultation has been undertaken on the policy behind this Order. The policy position has not changed since this was agreed for the 2018-19 financial year. The proposals benefit all ratepayers in Wales and there is no impact on the resources available to local authorities.

## PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### Options

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by RPI at September 2020 (1.1%), resulting in a multiplier of 0.541.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by CPI at September 2020 (0.5%), resulting in a multiplier of 0.538.

### Costs and benefits

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

The following illustrates the effect of using RPI to increase the multiplier on the non-domestic rates bill of a property.

For example, if a property has a rateable value (RV) as assessed by the Valuation Office Agency of £15,000, the rates bill for 2020-21 (before any reliefs) would have been:

RV   £15,000 x 0.535 = £8,025

Applying RPI would result in an annual rates bill for 2021-22 of:

RV   £15,000 x 0.541 = £8,115

The increase in the annual charge would therefore be £90.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would result in a lower increase in rates bills for all non-domestic properties than under RPI.  Using the example from Option 1.

The rates bill for 2020-21 was:

RV   £15,000 x 0.535 = £8,025

An increase using CPI for 2021-22 would give a bill of:

RV   £15,000 x 0.538 = £8,070

The increase in rates for the property would therefore be £45, £45 less than if RPI were used.

The total saving to non-domestic ratepayers across Wales is estimated at around £7.3m, not accounting for the impact of relief schemes. This would be a recurrent saving as the multiplier cannot be increased at a level above RPI in future years. This saving is additional to the savings made from applying the same approach in each year since 2018-19.

**Option selection**

The cost of limiting the increase in the multiplier (Option 2) would be borne by the Welsh Government. There would be no financial impact on local authorities. The approach also means that ratepayers in Wales would not be at a disadvantage compared to other parts of the UK.

Option 2 is therefore the preferred option.

**Analysis of other effects and impacts**

**Promoting Economic Opportunity for All (Tackling Poverty)**
Limiting the increase in the multiplier provides support for all ratepayers which could help to prevent hardship.

**UNCRC**
No particular impact on the rights of children has been identified.

**Welsh language**
No effect on the opportunities to use the Welsh language or the equal treatment of the language has been identified.

**Equalities**
No specific impacts, positive or negative, on persons who share a protected characteristic (as determined by the Equality Act 2010) have been identified.

**Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**
Limiting the increase in the multiplier will assist all ratepayers and, as such, will help to contribute to the achievement of the wellbeing goals of a prosperous and a more equal Wales.

**Impact on voluntary sector**
Limiting the increase in the multiplier will benefit all ratepayers including those operating in the voluntary, charitable and not-for-profit sectors.

**Competition Assessment**
A competition filter test has been applied to the Order. As the change benefits all ratepayers, no effect on competition within Wales is indicated. Limiting the multiplier means that ratepayers in Wales are not placed at a disadvantage compared to other parts of the UK.

**Post implementation review**
The Welsh Government will monitor the impact of the change on the non-domestic rates pool.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-3187-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Tachwedd 2020

Annwyl Llywydd,

**GORCHYMYN ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Adrethu Annomestic (Lluosydd) (Cymru) 2020, dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021, ddarostyngedig i gytundeb y Cynulliad. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 8 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3.3

## SL(5)660 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

### Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) (O.S. 2020/574) mewn cysylltiad â'r gofyniad i ynysu ar deithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn “wledydd a thiriogaethau esempt”.

Mae rheoliad 2 yn diwygio’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

(a) caniatáu i berson y mae’n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12A o ganlyniad i’r ffaith iddo fod yn Nenmarc, neu fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc, adael y man lle y mae’n ynysu er mwyn ymadael â Chymru;

(b) gwahardd unrhyw awyren neu long sy’n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch;

(c) ychwanegu Bahrain, Cambodia, Chile, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar ac Ynysoedd Turks a Caicos at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;

(d) hepgor Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus a Gwlad Groeg i gyd, ac eithrio ynysoedd Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos, o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;

(e) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 4”) (O.S. 2020/1219). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S.2020/1237) (“Rheoliadau 2020”).

### Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd wedi’i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae rheoliad newydd 12B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gwahardd unrhyw awyren neu lestr sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch. Mewn perthynas â llestr, mae'r testun Saesneg yn diffinio "arrive" yng nghyd-destun "arrive in Wales" i olygu "to moor at any place" ond mae'r testun Cymraeg yn ei ddiffinio i olygu "angori yn unrhyw fan **arall**" (ychwanegwyd pwyslais).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi, ac yn falch o ddarllen, y Memorandwm Esboniadol ynghylch ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiadau blaenorol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Rhif 4, Rheoliadau 2020 a diwygiadau technegol dilynol a wnaed i'r Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd blaenorol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr un pwynt adrodd Technegol yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1288 (Cy. 286)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) ("Rheoliadau Rhif 4"). Maent hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237 (Cy. 279)).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

(a) caniatáu i berson y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12A o ganlyniad i'r ffaith iddo fod yn Nenmarc, neu fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc, adael y man lle y mae'n ynysu er mwyn ymadael â Chymru;

(b) mewnosod rheoliad 12B newydd yn y Rheoliadau hynny i wahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch;

(c) ychwanegu Bahrain, Cambodia, Chile, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar ac Ynysoedd Turks a Caicos at y rhestr o weledydd a thiriogaethau esempt;

(d) hepgor Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus a Gwlad Groeg i gyd, ac eithrio ynysoedd Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos, o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;

(e) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Mae rheoliad 3 yn darparu nad yw'r rheoliad 12B newydd o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys pan fo taith awyren neu long wedi cychwyn cyn y daeth rheoliad 12B i rym.

Mae rheoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â'r gwledydd a'r tiriogaethau y mae eu statws wedi newid. Mae'r darpariaethau trosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2(5) i (8) o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn—

(a) darparu y caiff person y mae'n ofynnol iddo beidio â gadael y man lle y mae'n byw o dan reoliad 18A o Reoliadau Rhif 4 (darpariaeth sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar) adael y man hwnnw er mwyn ymadael â Chymru;

(b) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1288 (Cy. 286)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

*Gwnaed am 5.04 p.m. ar 13 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 7.00 p.m. ar 13 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**).

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12A—

(a) ym mharagraff (4), yn y testun Saesneg, yn lle "by", lle y mae'n digwydd am yr ail dro, rhodder "of";

(b) ym mharagraff (7), yn y rheoliad 10(4) a addaswyd—

(i) yn y testun Cymraeg, yn lle is-baragraff (a)(ii) rhodder—

"(ii) i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;"

(ii) ar ôl is-baragraff (a)(ii) mewnosoder—

"(iii) er mwyn teithio at ddiben ymadael â Chymru;".

(3) Ar ôl rheoliad 12A mewnosoder—

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278) ac O.S. 2020/1237 (Cy. 279)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"RHAN 3A

Teithio o Ddenmarc

**Gwahardd awyrennau a llestrau rhag teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc**

**12B.**—(1) Ni chaiff person sy'n rheoli neu'n gyfrifol am reolaeth awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf yn Nenmarc beri na chaniatáu iddi gyrraedd Cymru, oni fo'n rhesymol angenrheidiol iddi wneud hynny er mwyn sicrhau—

(a) diogelwch yr awyren neu'r llestr, neu

(b) iechyd a diogelwch unrhyw berson sydd arni.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) awyren neu lestr a weithredir yn fasnachol ac nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;

(b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth Ei Mawrhydi neu er mwyn cefnogi Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "cyrraedd" yw—

(i) mewn perthynas ag awyren, glanio;

(ii) mewn perthynas â llestr, angori yn unrhyw fan arall;

(b) ystyr "teithiwr" yw person a gludir mewn awyren neu ar lestr ac eithrio aelod o'i chriw."

(4) Yn rheoliad 14(1)—

(a) yn is-baragraff (e), hepgorer "neu";

(b) yn is-baragraff (f), ar y diwedd mewnosoder "neu";

(c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"(g) 12B(1),".

(5) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y man priodol mewnosoder—

"Bahrain"

"Cambodia"

"Chile"

"Corfu"

"Creta"

"Yr Emiraethau Arabaidd Unedig"

"Gwlad yr Iâ"

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Kos"

"Laos"

"Qatar"

"Ródhos"

"Zakynthos".

(6) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 (Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig), yn y man priodol mewnosoder—

"Ynysoedd Turks a Caicos".

(7) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Gwlad Groeg".

(8) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 (Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig), hepgorer—

"Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus".

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 2(2)**

**3.** Nid yw rheoliad 12B o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, a fewnosodir gan reoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn, yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2(5) a (6)**

**4.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6), neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn rheoliad 2(5) and (6) at Rannau 1 a 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6), drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2(7) a (8)**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(7) neu (8) ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(7) neu (8), i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18A—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) hepgorer "4,";

(ii) ar ôl "â P" mewnosoder ", hyd at ddiwedd cyfnod y cyfyngiad";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y

(**1**) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyrhaeddodd P Cymru" rhodder "cyfnod y cyfyngiad";

(c) ym mharagraff (4), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"(d) er mwyn teithio at ddiben ymadael â Chymru."

(d) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfnod y cyfyngiad" mewn perthynas â P ac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, yw'r cyfnod sy'n dod i ben â'r diwrnod sydd 14 o ddiwrnodau ar ôl i P gyrraedd Cymru ddiwethaf cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020—

(a) o Ddenmarc, neu

(b) o unrhyw le arall, ar ôl bod yn Nenmarc ers i P fod yng Nghymru yn flaenorol."

(3) Yn rheoliad 28—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "neu 18A(3)";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "neu 14(2)" rhodder ", 14(2) neu 18A(3)".

(4) Yn rheoliad 31—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "neu 18A(3)";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "neu 14(2)" rhodder ", 14(2) neu 18A(3)".

(5) Yn rheoliad 35(1)(a), ar ôl "16," mewnosoder " 18A(3),".

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020**

**7.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020(**1**), hepgorer paragraff (5).

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 5.04 p.m. ar 13 Tachwedd 2020

(**1**) O.S. 2020/1237 (Cy. 278).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

13 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) mewn cysylltiad â’r gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir “gwledydd esempt”. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 4”). Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) (“Deddf 1984”). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a’r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae rheoliadau a wneir o dan adrannau 45B a 45C o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol yn y Senedd. Fodd bynnag, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae’r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ fel y nodir yn adrannau 45Q a 45R o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, Rheoliadau Rhif 4 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 fel y nodir isod.

**<u>Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol</u>**

Daeth y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2). Ers 10 Gorffennaf 2020, mae esemptiadau wedi bod rhag y gofynion i ynysu a nodir yn y Rheoliadau hynny ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir "gwledydd esempt".

Fel rhan o'r broses sy'n adolygu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rheolaidd, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yng Ngwlad Groeg (ac eithrio Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos). Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o Wlad Groeg hefyd (ac eithrio Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos). Bydd y gofynion i ynysu a gyflwynwyd ar 1 Tachwedd 2020 ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o Gyprus hefyd yn cael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus.

Mae'r Gydganolfan Bioddiogelwch hefyd yn cynghori bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi lleihau yn Bahrain, Cambodia, Chile, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar, Ynysoedd Turks a Caicos, a'r Emiraethau Arabaidd Unedig. O ganlyniad, mae'r gwledydd a'r tiriogaethau hyn yn awr yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny.

Yn sgil adroddiadau o achosion o'r coronafeirws mewn ffermydd mincod yn Nenmarc, a'i ledaeniad wedyn i'r gymuned leol, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gyflwyno mesur ychwanegol sy'n gwahardd awyrennau a chychod neu longau yr oedd eu man ymadael diwethaf yn Nenmarc rhag glanio neu angori unrhyw le yng Nghymru, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn sgil gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 fore dydd Sadwrn. Yn benodol, mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn glir y caiff unigolyn sy'n ynysu ar ôl dychwelyd o Ddenmarc adael y man lle y mae'n ynysu er mwyn teithio i ymadael â Chymru. Maent hefyd yn cywiro gwallau yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n deillio o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 ac a nodwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Rheoliadau diwygio hynny.

**<u>Rheoliadau Rhif 4</u>**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i Reoliadau Rhif 4, yn sgil gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 fore dydd Sadwrn. Yn benodol, mae'r diwygiadau yn darparu bod person y mae'n ofynnol iddo beidio â gadael y man lle y mae'n byw, o ganlyniad i'r ffaith iddo fod yn Nenmarc yn ddiweddar (neu ei fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar), yn cael gwneud hynny er mwyn ymadael â Chymru. Maent hefyd yn cywiro gwallau yn Rheoliadau Rhif 4 sy'n deillio o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 ac a nodwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Rheoliadau diwygio hynny.

**<u>Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020</u>**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 i hepgor paragraff (5) o reoliad 4. Roedd y ddarpariaeth hon yn gwneud diwygiad gwallus i Reoliadau Rhif 4 a nodwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Rheoliadau diwygio hynny. Mae hyn wedi'i gywiro fel y nodir uchod.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/VG/3860/20

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Tachwedd 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu gosod yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 10 Rhagfyr 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal dadl ar y Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **12 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, a darparu gwybodaeth am deithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd meysydd awyr Sofran Akrotiri a Dhekelia ar ynys Cyprus a Groeg, ac eithrio ynysoedd Rhodes, Kos, Corfu, Creta a Zakynthos (Zante) yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly bydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hynny hunanynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Rwyf hefyd wedi penderfynu y dylid ychwanegu'r gwledydd a thiriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio; Bahrain, Cambodia, Chile, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar, Turks a Caicos, a'r Emiraethau Arabaidd Unedig, felly ni fydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hyn hunanynysu bellach pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Gwneir diwygiad pellach i nodi na fydd awyrennau teithwyr a llongau sy’n teithio’n uniongyrchol o Ddenmarc, a’r llwythi y maent yn eu cludo, bellach yn gallu glanio na docio mewn porthladdoedd yng Nghymru.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 14 Tachwedd.

# SL(5)654 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth yr UE a restrir yn Atodiad 2 i'r Protocol hwnnw gael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion ymdrin â materion sy'n codi o'r Protocol hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r newidiadau a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol i sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, a deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n ei gorfodi, yn parhau i weithredu'n effeithiol, er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion delio â materion sy'n deillio o, neu'n gysylltiedig â'r Protocol hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1240 (Cy. 280)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 11M(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16). Mae'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth yr UE a restrir yn Atodiad 2 i'r Protocol hwnnw gael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/250 (Cy. 62)) er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion ymdrin â materion sy'n codi o'r Protocol hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, sy'n gwneud diwygiadau i Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 (O.S. 2019/57 (Cy. 20)) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1240 (Cy. 280)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gwnaed* *6 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *10 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11M(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**Diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae rheoliad 2 o Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2018 p. 16; mewnosodwyd paragraff 11M o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 gan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Gweler adran 20(1) o Ddeddf 2018 am y diffiniad o "devolved authority".
(**2**) O.S. 2019/250 (Cy. 62).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ym mharagraff (3), yn lle'r testun a amnewidiwyd rhodder "i Brydain Fawr o wlad heblaw Gogledd Iwerddon neu Aelod-wladwriaeth".

(3) Yn lle paragraff (4) rhodder—

> "(4) Yn rheoliad 13(3)(b), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth neu Ogledd Iwerddon"."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
6 Tachwedd 2020

**Explanatory Memorandum** to the Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020.

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Agriculture, Sustainable Development Division and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister/Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020.

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. These statements can be found in Part 2 of the annex to this memorandum.

Lesley Griffiths MS
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**
10 November 2020

## PART 1

### 1. Description

These Regulations amend the Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 (2019//250 (W. 62)) in order to implement the Protocol on Ireland/Northern Ireland and for the purposes of dealing with matters arising out of, or related to, in that protocol.

The amendments effected by the Regulations will ensure the trade or movement of equines between Wales and Northern Ireland isn't impacted by UK's exit from the European Union.

### 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

There are no matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee.

### 3. Legislative background

This instrument relates to the withdrawal of the United Kingdom from the European Union and is being made under paragraph 11M(1) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 ('the 2018 Act'). Paragraph 11M of Schedule 2 to the 2018 Act was inserted by section 22 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020. The 2020 Regulations are made under Part 1C of Schedule 2 to the 2018 Act and are not subject to the sifting requirement. Devolved authority' is defined in section 20(1) of the 2018 Act to mean the Welsh Ministers.

Pursuant to paragraph 8F(8) of Schedule 7 to the 2018 Act, as the 2020 Regulations do not contain provision falling within paragraph 8F(2) of Schedule 7, they are subject to annulment in pursuance of a resolution of the Senedd. These Regulations are therefore being made under the negative resolution procedure.

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths has made any relevant statements in Part 2 of the Annex to this Explanatory Memorandum.

### 4. Purpose and intended effect of the legislation

***What did any relevant EU law do before exit day?***

These Regulations amend the Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 (2019//250 (W. 62)), which make amendments to the Equine Identification (Wales) Regulations 2019 (2019/57 (W. 20)) which

supplement and make provision for the enforcement of Commission Implementing Regulation (EU) 2015/262 laying down rules pursuant to Council Directives 90/427/EEC and 2009/156/EC as regards the methods for the identification of equidae in Wales. The Equine Identification (Wales) Regulations 2019 set out the responsibilities of equine keepers and provide for the identification of equines in Wales. The Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 were made in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union. They ensure Welsh keepers will be able to move and trade equines with other Member States.

***Why is it being changed?***

The minor and technical changes made by the instrument are necessary to ensure that retained EU legislation and the domestic EU legislation enforcing it continues to operate effectively, in order to implement the Protocol on Ireland/Northern Ireland and for the purposes of dealing with matters arising out of, or related to, that protocol. The changes made to ensure that it operates effectively include the substitution of 'United Kingdom' with 'Great Britain' and references to 'a member State' to refer to 'Northern Ireland or a member State'.

***What will it now do?***

The instrument will ensure that the Protocol on Ireland/Northern Ireland is implemented and equine trade continues to operate effectively in Wales at the end of the implementation period.

**5. Consultation**

As there is no policy change, no public consultation was undertaken. The purpose of the instrument is solely to enable the current legislative and policy framework to remain unchanged by the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

**6. Regulatory Impact Assessment (RIA)**

An RIA has not been produced in relation to these Regulations as it has no impact on Sections 72-75 or 77-79 of the Government of Wales Act 2006. In addition no impact is foreseen on the private, voluntary or public sectors.

# Annex
# Statements under the European Union (Withdrawal) Act 2018

## Part 1
## Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required of the Welsh Ministers under the 2018 Act. The table also sets out those statements that may be required of Ministers of the Crown under the 2018 Act, which the Welsh Ministers have committed to also provide when required. The required statements can be found in Part 2 of this annex.

| Statement | Where the requirement sits | To whom it applies | What it requires |
|---|---|---|---|
| Sifting | Paragraphs 3(7) and 4(3), Schedule 7<br><br>*Paragraph 3(7) (anticipated to be a requirement on Welsh Ministers in Standing Orders)* | The Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 to make a Negative SI<br><br>Paragraph 3(7) applies to Ministers of the Crown, but Welsh Ministers have committed to make the same statement | A statement to explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation of the LJC Committee (as sifting committee) |
| Appropriate-ness | Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement that the SI does no more than is appropriate. |
| Good Reasons | Sub-paragraph (3) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have | A statement to explain the good reasons for making the instrument and that what is being done is a reasonable course of action. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | |
| Equalities | Sub-paragraphs (4) and (5) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain what, if any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them.<br><br>A statement that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010. |
| Explanation s | Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g. whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law. |
| Criminal offences | Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement setting out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached. |
| Sub-delegation | Paragraph 30, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority. | A statement to explain why it is appropriate to create such a sub-delegated power. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 or paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority | |
| Urgency | Sub-paragraph (2) and (8) of paragraph 7, Schedule 7 | Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 but using the urgent procedure in paragraph 7 of Schedule 7 | A statement that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary to make the SI using the urgent procedure and the reasons for that opinion. |

# Part 2

## Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

### 1. Sifting statement(s)

Not applicable.

### 2. Appropriateness statement

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view the Equine Identification (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 does no more than is appropriate". The provisions of the 2020 Regulations are limited to amendments necessary to implement the Protocol on Ireland/Northern Ireland, and for the purposes of dealing with matters arising out of, or related to, that protocol.

### 3. Good reasons

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action". These are the continued trade and movement of equines between Wales, Northern Ireland and other countries.

### 4. Equalities

4.1 The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement(s) "The instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts.

4.2 The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

4.3 "In relation to the instrument, I, Lesley Griffiths have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010."

## 5. Explanations

The explanations statement has been made in paragraph 4 (Purpose & intended effect of the legislation) of the main body of this explanatory memorandum.

## 6. Criminal offences

Not applicable

## 7. Legislative sub-delegation

Not applicable

## 8. Urgency

Not applicable

Eitem 5.1

# SL(5)648 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"), yn benodol Rhan 4 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â rhestri cyflawnwyr deintyddol, er mwyn adlewyrchu'r newid yn sefyllfa cyflogaeth deintyddion sylfaen.

Ar hyn o bryd, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintydd sylfaen, at ddibenion ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, fod wedi ei gyflogi o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda hyfforddwr cymeradwy, sy'n ddeintydd at ddibenion y prif Reoliadau.

O 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn  i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"The 2020 Regulations will not be subject to public consultation. The Statutory Instrument concerns the principle of amending operational procedures which affect a small number of key stakeholders who have participated in the development of the proposal with HEIW from its inception.*

*Key stakeholder representatives were invited by HEIW to discuss and develop the draft proposal with the finally agreed proposal published inviting colleagues with an interest across Wales to provide their comments.*

*The British Dental Association (Wales) have noted the introduction of the amending Regulations."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

*"On this occasion, a Regulatory Impact Assessment has not been carried out. The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy. There are no additional costs associated with the 2020 Regulations with no impact on the private, local government or third sector foreseen."*

Fodd bynnag, ar y wyneb, ymddengys bod y Rheoliadau yn cefnogi newid mewn polisi drwy sicrhau mai gydag un cyflogwr arweiniol yw'r contract cyflogaeth ar gyfer deintyddion sylfaen, yn hytrach na gydag unrhyw hyfforddwr cymeradwy arall. Nodir hefyd bod yr adran "*Purpose & intended effect of the legislation"* yn y Memorandwm Esboniadol yn datgan:

*"The Principal Regulations allow NWSSP to accept FDs onto the Performer Lists subject to a 3 months 'grace period' but currently require the FD to have a contract of employment with an approved training practice. The Regulations will make the required amendments to the Principal Regulations to facilitate FDs full inclusion to the Dental Performers List from 1 December 2020 and to align the applicable legislative provisions with the **change to policy**."* [ychwanegwyd pwyslais]

Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hefyd yn nodi:

*"Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi."* [ychwanegwyd pwyslais]

Gofynnir am eglurhad pellach, felly, o'r cyfiawnhad ar gyfer diffyg asesiad effaith rheoleiddiol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Fel y'i nodir yn adran "Cefndir a Diben" adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, o 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Dyma'r unig newid i'r polisi ac mae'n newid o natur dechnegol a gweinyddol. Fodd bynnag, rhaid i'r newid gael ei adlewyrchu yn y prif Reoliadau a dyna pam y mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn pennu: "Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi."

Gallai'r datganiad yn y Memorandwm Esboniadol, sef "The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy", fod wedi bod yn gliriach, yn yr ystyr nad yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn adlewyrchu newid o sylwedd i'r polisi. Gallai'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau hefyd fod wedi bod yn gliriach i gynnwys geiriad i egluro bod y newid i'r polisi yn dechnegol ac yn weinyddol o ran ei natur. Fodd bynnag, nid yw'r naill ddatganiad na'r llall yn anghywir.

Eitem 5.2

# SL(5)649 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod nifer o gyfyngiadau a gofynion mewn ymateb i'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r Coronafeirws, ar ôl i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ddod i ben ar 8 Tachwedd.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 9 Tachwedd 2020 a byddant yn dod i ben ar 19 Chwefror 2021, oni bai eu bod yn cael eu dirymu cyn hynny. Rhaid adolygu'r Rheoliadau erbyn 19 Tachwedd, o leiaf unwaith rhwng 20 Tachwedd a 3 Rhagfyr, o leiaf unwaith rhwng 4 Rhagfyr a 17 Rhagfyr ac o leiaf unwaith bob 21 diwrnod ar ôl hynny.

Mae 9 Rhan i'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol a ganlyn:

a) gwahardd cynulliadau mewn annedd preifat, ac eithrio gydag aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig, heb esgus rhesymol;

b) caniatáu i hyd at ddwy aelwyd gytuno i ffurfio aelwyd estynedig (ni fydd hyn yn gyfyngedig i amgylchiadau lle mae gan un aelwyd dim ond un aelod sy'n oedolyn);

c) gwahardd cynulliadau mewn mannau cyhoeddus heb esgus rhesymol, ond
   a. caniatáu i hyd at bedwar o bobl o unrhyw aelwyd, neu unrhyw nifer o aelodau o'r un aelwyd, ymgynnull yn yr awyr agored neu mewn mangre reoledig;
   b. caniatáu i aelwyd estynedig ymgynnull yn yr awyr agored;
   c. caniatáu cynulliadau o hyd at 15 y tu mewn neu 30 yn yr awyr agored gymryd rhan mewn gweithgaredd a drefnir gan gorff cyfrifol;

d) caniatáu teithio o fewn ac ar draws Cymru, ond gwahardd teithio allan o Gymru ac i mewn heb esgus rhesymol;

e) cyflwyno gofynion i bobl hunanynysu os ydyn nhw wedi cael canlyniad prawf positif am y Coronafeirws, neu wedi cael eu hysbysu i wneud hynny gan swyddog olrhain cysylltiadau;

f) gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangre sy'n agored i'r cyhoedd, neu am waith sy'n cael ei wneud mewn unrhyw fangre, i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â, neu ledaenu'r Coronafeirws – gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr alluogi neu ganiatáu i weithwyr hunanynysu pan fydd yn ofynnol i'r gweithiwr wneud hynny gan swyddog olrhain cysylltiadau;

g) ei gwneud yn ofynnol i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn ardaloedd cyhoeddus mangreoedd dan do, yn ddarostyngedig i rai esemptiadau ac eithriadau.

I grynhoi:

Mae Rhan 2 yn gosod cyfyngiadau ar gyfarfod â phobl eraill. Fodd bynnag, gall person fod mewn cynulliad os oes ganddo esgus rhesymol, naill ai pan fydd yn rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall yn rhesymol ymarferol, neu mewn amgylchiadau penodol fel yr amlinellir yn y rheoliadau. Mewn anheddau preifat (gan gynnwys gerddi), dim ond gydag aelodau o'u haelwyd a'u haelwyd estynedig y gall pobl ymgynnull. Gall pob oedolyn ffurfio aelwyd estynedig mewn uchafswm o ddwy aelwyd sy’n cytuno. Y tu allan i anheddau preifat, gall pobl ymgynnull yn yr awyr agored mewn grwpiau o hyd at bedwar (nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif), neu gydag aelodau o'u haelwyd eu hunain ac aelwyd estynedig (waeth beth yw'r nifer). Mewn llety mewn gwesty neu lety gwyliau arall, dim ond gydag aelodau o'u haelwyd eu hunain y gall pobl ymgynnull. Mewn mannau dan do eraill, gall pobl ymgynnull gydag aelodau o’u haelwyd eu hunain neu mewn grwpiau o hyd at bedwar (nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif). Mae Rhan 2 hefyd yn gwahardd trefnu digwyddiadau a gynhelir yn bennaf y tu mewn ar gyfer mwy na 15 o bobl, neu yn yr awyr agored ar gyfer mwy na 30 o bobl, yn amodol ar eithriadau. Gwaherddir digwyddiadau cerddoriaeth penodol sydd heb eu trwyddedu hefyd.

Mae Rhan 3 yn gwahardd pobl rhag mynd i Gymru neu ymadael â Chymru, yn amodol ar eithriadau. Mae'r Rheoliadau'n darparu enghreifftiau o ddibenion y gallai fod yn rhesymol angenrheidiol i berson fynd i Gymru neu ymadael â Chymru, ac maent yn darparu amgylchiadau penodol lle caniateir teithio. Caniateir teithio o fewn Cymru.

Mae Rhan 4 yn gosod gofynion newydd ar bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y Coronafeirws a’u cysylltiadau agos. Mae'n ofynnol i oedolion a phlant sydd wedi cael canlyniad positif, a phobl sydd wedi cael “cysylltiad agos” â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif, ac sydd wedi cael eu hysbysu gan swyddog olrhain cysylltiadau i beidio â gadael y lle maen nhw'n byw tan ddiwedd y diwrnod olaf o'u hynysiad. Y cyfnod ynysu yn gyffredinol yw 10 diwrnod i'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif a 14 diwrnod i'r rheini sydd wedi cael cysylltiad agos, ond mae dechrau'r cyfnodau hynny'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau (er enghraifft; a yw'r person wedi adrodd ar symptomau neu beidio). Mae'n ofynnol i oedolion sydd â chyfrifoldeb am blentyn y mae’n ofynnol iddo ynysu, i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn hunanynysu. Mae'r rheoliadau'n galluogi swyddogion olrhain cysylltiadau i rannu gwybodaeth i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu a gorfodi'r system hunanynysu.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 1 yn ymwneud â busnesau a gwasanaethau y mae'n rhaid i’w mangreoedd fod ar gau i’r cyhoedd. Ymhlith y rhai y mae’n ofynnol iddynt gau at aelodau'r cyhoedd mae neuaddau cyngerdd, lleoliadau adloniant i oedolion, theatrau a chlybiau nos. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n gwahardd alcohol rhag cael ei werthu, ar

fangreoedd sydd â thrwydded i'w werthu, ar ôl 10.00 p.m. ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangreoedd fod ar gau erbyn 10.20 p.m. ar yr hwyraf.

Mae Rhan 6 ac Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth sy'n gosod gofynion ar "fangre reoleiddiedig" (mangre sydd ar agor i'r cyhoedd neu lle mae gwaith yn cael ei gynnal) i gymryd mesurau rhesymol at ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws, a lledaeniad y feirws . Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau.

Mae Rhan 7 ac Atodlen 3 yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion, gan gynnwys pwy all gymryd camau gorfodi, cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio, pwerau i symud a gwasgaru cynulliadau, pwerau i atal digwyddiadau, pwerau i gyfarwyddo pobl sy'n torri cyfarwyddyd i hunanynysu i ddychwelyd adref a gorfodi'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb. Mae'n darparu ar gyfer pŵer i fynd i fangre, i'r heddlu gynnal archwiliadau ar y ffyrdd ac i ddefnyddio grym rhesymol mewn rhai amgylchiadau.

Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae hyn yn cynnwys troseddau y gellir cyhoeddi rhybudd cosb benodedig ar eu cyfer fel dewis arall yn lle dwyn achos llys.

Mae Rhan 9 yn gwneud diwygiad canlyniadol ac yn cynnwys termau diffiniedig, gan gynnwys y diffiniad o weithgaredd "wedi ei drefnu" at ddibenion y Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nid oes unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt wedi eu nodi o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.*

*Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu cyfyngiadau a gofynion cenedlaethol newydd o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y Coronafeirws dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y Coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r Coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol a achosir gan y Coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

*Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, yr wyf i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, arweinwyr busnes ac undebau llafur yng Nghymru, ac rydym yn parhau i gynnal trafodaethau o'r fath. Cyhoeddais yn fy natganiad i'r Aelodau ar 3 Tachwedd fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, ac adroddwyd am hynny yn eang wedyn."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r

afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod crynodeb o'r asesiad effaith integredig wedi'i baratoi ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru: https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws.

**4. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y darn canlynol o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyfeirio at dystiolaeth wyddonol a dynnwyd arni er mwyn asesu'r risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

> *"Er na fydd effaith y cyfnod atal byr ar gyfradd atgynhyrchu COVID-19 yn gwbl hysbys am rai wythnosau, diben gwneud y Rheoliadau [Rhif 3] oedd darparu amodau a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y gyfradd atgynhyrchu. Mae'r dystiolaeth wyddonol a ddefnyddir i asesu'r risg i iechyd y cyhoedd d yn cael ei darparu gan Gell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru ac mae ar gael ar wefan llyw.cymru."*

O ran y Rheoliadau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi tystiolaeth a oedd yn dangos y dylid gosod cyfyngiadau a gofynion ar sail Cymru gyfan.

Yn benodol, tystiolaeth a ddangosodd y dylai ardaloedd yng Nghymru sydd â'r nifer uchaf o achosion Covid-19 fod yn ddarostyngedig i lacio cyfyngiadau a gofynion pan ddaw Rheoliadau Rhif 3 i ben. Roedd nifer yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yr uchaf yng Nghymru ar 9 Tachwedd, fel y cyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y Coronafeirws, mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pedwerydd pwynt rhinweddau yn unig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:

Roedd y dystiolaeth ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu cenedlaethol yn cynnwys data, wedi eu cyplysu â chyngor gan y Prif Swyddog Meddygol, a oedd yn dangos bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi eu gwasgaru'n eang yn ddaearyddol, a bod y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau cynyddol o ran digwyddedd achosion a gadarnhawyd a chanran yr episodau profi positif ar gyfer SARS-CoV2. Cyn y cyfnod atal byr roedd cyfyngiadau lleol yn eu lle mewn 17 o ardaloedd ac roedd data Iechyd Cyhoeddus Cymru (ffigur treigl saith niwrnod 2-8 Tachwedd) yn dangos niferoedd cynyddol o achosion ledled Cymru, nid dim ond wedi eu cyfyngu i nifer cyfyngedig o Awdurdodau Lleol.

Argymhellodd y dystiolaeth wyddonol a gyhoeddwyd gan y Gell Cyngor Technegol, a ddefnyddiwyd i lywio'r cyfnod atal byr:

> *"…defnyddio dull dau gam. "Cyfnod atal byr" yw'r cam cyntaf – cyfnod cyflym a thymor byr o gyfyngiadau syml, eithafol ledled Cymru a fyddai'n lleihau nifer yr achosion o'r feirws yng Nghymru yn sylweddol... Bydd yn rhaid i'r cyfnod atal leihau'r R cenedlaethol (rhwng 1.1 – 1.4 yn fwyaf diweddar) i lai na 0.9. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen lleihau R ym mhob rhan o Gymru, sy'n gofyn am ddull gweithredu cenedlaethol yn hytrach na'r dull presennol a gaiff ei yrru yn lleol drwy Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol.*
>
> *Mae'r ail gam yn ddull newydd, symlach a chenedlaethol o ymdrin ag ymddygiadau a chyfyngiadau. Disgwylir i negeseuon a rheoliadau symlach fod yn haws eu deall a chydymffurfio â nhw. Gellir dileu rhai cyfyngiadau presennol os dangosir eu bod yn llai effeithiol neu'n fwy niweidiol nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, megis cyfyngiadau ffiniau teithio'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, byddai angen newidiadau cynaliadwy mewn ymddygiad mewn sawl agwedd ar fywyd er mwyn i Rt aros mor agos at 1 â phosibl."*

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/grwp-cyngor-technegol-cyfnod-atal-byr.pdf

Cafodd y penderfyniad i fabwysiadu dull gweithredu cenedlaethol hefyd ei lywio gan ymgynghoriad â rhanddeiliaid a thystiolaeth oddi wrth grwpiau ffocws. Y neges oedd bod cyfyngiadau lleol yn ddryslyd ac yn gymhleth ac nad oeddent yn cyfateb i fywydau pobl gan nad yw llawer o bobl yn byw eu bywydau o fewn ffin awdurdod lleol.

Er ein bod yn annhebygol o weld effaith lawn y cyfnod atal byr tan ychydig wythnosau ar ôl iddo ddod i ben, rydym eisoes yn gweld arwyddion calonogol bod y cyfnod atal byr wedi torri cadwyni trosglwyddiad gan arwain at ostyngiad yn niferoedd yr achosion positif sy'n cael eu hadrodd. Mae hyn yn arbennig o glir mewn ardaloedd digwyddedd uchel megis Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful sy'n gweld

gostyngiadau sylweddol yn nifer yr achosion positif sy'n cael eu hadrodd. Merthyr Tudful hefyd sydd â'r boblogaeth leiaf mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, felly gall y gyfradd fesul 100,000 gael ei gwyro gan niferoedd llai o achosion. Bydd pob ardal yn cael ei monitro'n agos dros yr wythnosau nesaf. Os oes angen cyflwyno camau gweithredu lleol wedi eu targedu, mae amrywiaeth o bwerau i awdurdodau lleol a Thimau Rheoli Digwyddiadau i ymateb i faterion penodol, fel y'u nodir yng Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws.

# SL(5)653 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Gwnaeth y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt o 4.00am ar 6 Tachwedd 2020. O'r amser hwnnw, bu'n rhaid i bobl sy'n dod i mewn i Gymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod ynysu yn flaenorol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y gofyn i ynysu i bob aelod o aelwyd unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod cyn hynny, fel bod gofyn i'r teithiwr sy'n dychwelyd a phob aelod o'i aelwyd bellach ynysu am 14 diwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach:

- Ni chaiff unrhyw un sy'n dod i Gymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod blaenorol ei eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth teithiwr nac i ynysu.
- Bydd rhestr fwy cyfyngedig o'r rhesymau a ganiateir dros gael gadael man ynysu hefyd yn gymwys i deithwyr sy'n dychwelyd o Ddenmarc ac ar gyfer unrhyw aelod o'u haelwyd.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y fersiwn Saesneg, yn rheoliadau 3(3), 3(4), 4(3) a 4(4), nid yw'r dyfynodau sy'n dynodi'r geiriad sydd i'w mewnosod yn y lle cywir – dylai'r dyfynnod agoriadol ym mhob achos ddod o flaen "or". Er y gall y darllenydd gasglu'r hyn sydd i'w amnewid, nid yw'r ddarpariaeth fel y'i drafftiwyd yn mynegi hyn yn glir.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(3) yn diwygio rheoliad 28(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4"). Fodd bynnag, mae rheoliad 28(1) yn ymwneud â chynulliadau mewn anheddau preifat, ac mae is-baragraffau (a) i (c) yn rhoi pwerau penodol i swyddogion gorfodi wasgaru cynulliadau o'r fath.

Gan nad yw rheoliad 28(1) yn rhoi pŵer i swyddogion gorfodi roi cyfarwyddyd i berson ddychwelyd i'r man lle mae'n byw, mae'n ymddangos yn afresymegol bod y diwygiad wedi'i fewnosod yn y paragraff hwnnw – yr effaith fyddai na fyddai swyddog gorfodi sydd â sail resymol i amau bod person yn torri rheoliad 18A(3) yn gallu rhoi cyfarwyddyd i'r person hwnnw ddychwelyd i'r man lle mae'n ofynnol iddo fod (yn rhinwedd rheoliad 18A(3)).

Mae'n ymddangos y dylai rheoliad 4(3) mewn gwirionedd ddiwygio rheoliad 28(4) o Reoliadau Rhif 4, gan fod y paragraff hwnnw'n ymwneud ag unigolion sy'n ddarostyngedig i ofynion hunanynysu. Mae'r pwerau sy'n cael eu rhoi i swyddogion gorfodi yn rhinwedd paragraff (4) yn cyfateb i'r hyn a dybiwn yw effaith arfaethedig rheoliad 4(3) yn yr ystyr eu bod yn caniatáu i swyddogion gorfodi roi cyfarwydd i berson i ddychwelyd i'r man lle mae'n byw (neu symud person i'r lle hwnnw).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(5) yn diwygio rheoliad 29(1)(b) o Reoliadau Rhif 4. Fodd bynnag, nid yw "16" yn digwydd yn unman yn is-baragraff (b), felly mae'n amhosibl mewnosod y diwygiad 'ar ôl "16"' fel y darperir gan y ddarpariaeth. At hynny, nid yw'n ymddangos bod y mewnosodiad yn berthnasol i reoliad 29 (sy'n trafod pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau gwaharddedig).

O ystyried yr hyn rydym yn tybio yw effaith arfaethedig y diwygiad, mae'n ymddangos y dylai rheoliad 4(5) ddiwygio rheoliad 35(1 (a) o Reoliadau Rhif 4. Pe bai'r diwygiad yn cael ei fewnosod yno byddai'n ei gwneud hi'n drosedd i dorri'r gofyniad yn rheoliad 18A(3). Byddai hyn yn adlewyrchu'r diwygiad a wnaed i reoliad 29(1)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 gan reoliad 3(5) o'r Rheoliadau hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

(a) Cyfeirir at adran 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel un o'r pwerau galluogi yn y Saesneg, ond mae'r Gymraeg ond yn cyfeirio at adran 45P;

(b) Mae troednodyn yn cyfeirio at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ar dudalen 3 yn y Gymraeg ond nid oes troednodyn cyfatebol yn y Saesneg;

(c) Ym mharagraff (4)(a)(ii) o'r testun a fewnosodwyd gan reoliad 2(7), mae'r Saesneg yn nodi: *'to avoid serious illness, serious injury or other risk of serious harm;'* ac mae wedi'i gyfieithu fel *'i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed difrifol;'*. Credwn y

dylai'r cyfieithiad nodi '*i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;';*

(d) Mae'r dyfynodau sydd yn y man anghywir yn rheoliadau 3(3) a 3(4) yn y drefn honno (a nodir yn y pwynt adrodd technegol cyntaf) wedi arwain at y Gymraeg yn peidio â chynnwys y gair '*neu* yn y ddau achos.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi'r canlynol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau rhif 3 a rhif 4;*

Rydym yn cytuno nad yw'r Rheoliadau hyn yn amrywio ar hawliau unigolion o dan y ddeddfwriaeth a restrir uchod. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi set fwy cyfyngedig o amgylchiadau lle gall unigolion adael man ynysu dros dro nag sy'n berthnasol i bersonau y mae'n ofynnol iddynt ynysu heblaw oherwydd eu bod wedi cyrraedd Cymru o Ddenmarc.

A all Llywodraeth Cymru roi esboniad o'r rhesymeg dros yr ymyrraeth gynyddol hon â hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 10 Tachwedd 2020 ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020, a ddrafftiwyd yn eithriadol o gyflym ac a wnaed am 3.33 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

**Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 3 a 4: Camgymeriadau drafftio**

Mae'r adroddiad drafft yn tynnu sylw at gamgymeriadau drafftio yn y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 3") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4"). Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei hysbysu am y materion hyn.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 er mwyn cywiro'r camgymeriadau hyn. Gwnaed y Rheoliadau hynny ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar 13 Tachwedd 2020.

O ran pwynt 4 (anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg), bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi, wrth gwrs, bod statws cyfartal i'r ddau destun ac nad "cyfieithiad" o'r testun Saesneg yw'r testun Cymraeg.

Daeth Rheoliadau Rhif 3 i ben ddiwedd y dydd ar 8 Tachwedd 2020. Nid oedd angen cywiro'r materion a nodwyd yn yr adroddiad drafft o ran cyfeirio at y pwerau ac un o'r troednodiadau yn y Rheoliadau hyn, gan nad oedd iddynt unrhyw effaith o sylwedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i dawelu meddwl y Pwyllgor bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cysylltu â'r holl bersonau y mae'r gofynion ynysu mwy caeth a osodir gan y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt. O ganlyniad, ni fu unrhyw angen i ddefnyddio'r pwerau gorfodi na'r darpariaethau troseddu yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol nac yn Rheoliadau Rhif 4 cyn cywiro'r darpariaethau hynny.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Ymyrryd â hawliau unigolion**

Mae'r adroddiad drafft yn nodi'r cynnydd o ran ymyrryd â hawliau'r unigolion hynny sy'n cyrraedd Cymru ar ôl bod yn Nenmarc yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol, sy'n deillio o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r amgylchiadau eithriadol a arweiniodd at wneud y Rheoliadau hyn. Mae'r risgiau i iechyd a gyflwynir gan y posibilrwydd o fewnforio straen newydd o'r coronafeirws i Gymru mor ddifrifol, ym marn Llywodraeth Cymru, fel bod y cynnydd o ran ymyrryd â hawliau carfan fach iawn o unigolion yn gymesur â'r nod dilys o ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **06 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**RhS30C – Offeryn Statudol a osodwyd yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a phorthiant yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 ar hysbysu ymlaen llaw am lwythi o gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r Undeb;

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 gan ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y Ddogfen Mynediad Iechyd Gyffredin sy'n cyd-fynd â llwythi o anifeiliaid a nwyddau i'w cyrchfan;

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1666 (gan ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran amodau ar gyfer

monitro cludiant a dyfodiad llwythi o nwyddau penodol o'r safle rheoli ffiniau sy'n cyrraedd y sefydliad yn y cyrchfan yn yr Undeb);

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1873 (ar y gweithdrefnau mewn safleodd rheoli ffiniau ar gyfer perfformiad cyd-drefnol gan awdurdodau cymwys o reolaethau swyddogol dwysach ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid, cynhyrchion germinal, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion cyfansawdd);

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2007 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad 2019/2122 ynghylch categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sydd wedi'u heithrio o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ffiniau, rheolaethau penodol ar fagiau teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau a anfonir at bersonau naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad a diwygio Rheoliad (EU) Rhif 142/2011;

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2129 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso cyfraddau amlder yn unffurf ar gyfer gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar lwythi penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r Undeb;

- Diwygiadau gweithredol i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2130 gan sefydlu rheolau manwl ar y gweithrediadau sydd i'w cyflawni yn ystod ac ar ôl gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid a nwyddau yn amodol ar reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ffiniau;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn Gweithredu (EU) 2020/466 ar fesurau dros dro i gynnwys risgiau i iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid yn ystod rhai achosion o darfu difrifol ar systemau rheoli Aelod-wladwriaethau oherwydd clefyd y Coronafeirws (COVID-19);

- Penderfyniad 210/2019 Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n diwygio Atodiad 1 (Materion milfeddygol a ffytoiechydol) ac Atodiad 2 (Rheoliadau technegol, safonau, profi ac ardystio) i Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

<u>Deddfwriaeth ddomestig</u>

- Rheoliadau Mesurau’r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019;

- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019;

- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019;

- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â’r UE) 2019.

<u>Mae Rheoliadau 2020 yn dirymu’r ddeddfwriaeth a ganlyn:</u>

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/329 sy'n dynodi Canolfan Gyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Lles Anifeiliaid;

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/631 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy sefydlu labordai cyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer plâu planhigion;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1587 yn dirymu dynodiad Istituto Superiore di Sanita, Rhufain, yr Eidal fel Labordy Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer y gweddillion a restrir yn Atodiad 1, Grŵp B(3)(c) i Gyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/530 sy'n dynodi labordai Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer plâu planhigion ar bryfed a gwiddon, nematodau, bacteria, ffwng ac oomycetes, firysau, firoidau a ffytoplasmau; a

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1685 ar 4 Hydref 2019 sy'n dynodi Canolfan Gyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Lles Anifeiliaid ar gyfer dofednod ac anifeiliaid bach eraill a ffermir.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol i Weinidogion Cymru fel Awdurdod Cymwys Cymru, yn ddilyffethair. Maent hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol a deddfwriaethol i Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr un pryd, gyda’r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu arfer swyddogaethau penodol mewn perthynas â Phrydain Fawr, a gwneud rheoliadau ar ei gyfer, gyda chydsyniad Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru. Dim ond swyddogaethau sy'n arferadwy mewn meysydd datganoledig (fel y'u pennwyd drwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd) a roddir i Weinidogion Cymru.

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i

ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau i reoliadau presennol a ddargedwir gan yr UE sy'n llywodraethu rheolaethau swyddogol ar fewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr, gan gynnwys bwyd a mewnforion eraill sy'n berthnasol i'r gadwyn bwyd-amaeth – a elwir ar y cyd yn nwyddau 'glanweithdra a ffytoiechydol' ("SPS).

Cyflawnir rheolaethau swyddogol mewn porthladdoedd a phwyntiau mynediad ar y ffin sydd wedi'u dynodi'n briodol, i gadarnhau cydymffurfiaeth nwyddau SPS a fewnforiwyd â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ("OCR"). Mae'r rheolaethau hyn yn rhan annatod o ddiogelu iechyd pobl a bioddiogelwch yn y DU, gan eu bod yn darparu cyfundrefn sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i diffinio'n agos ar gyfer gwirio tarddiad, iechyd a diffyg halogi nwyddau SPS cyn y caniateir iddynt fynd y tu hwnt i'r pwyntiau rheoli ar ffin y DU.

Cyflawnir rheolaethau swyddogol hefyd mewn sefydliadau perthnasol yn y DU, ar bob cam o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu cynhyrchion, eitemau a sylweddau etc a gwmpesir gan yr OCR. Mae angen y rheolaethau hyn er mwyn sicrhau uniondeb cadwyn bwyd-amaeth y DU a chynnal lefel uchel o ran iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yn ogystal â lles anifeiliaid ar hyd y gadwyn bwyd-amaeth.

Mae'r offeryn hwn yn cywiro diffygion cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a fyddai, os na chaiff ei ddiwygio, yn atal ein system bresennol, sefydledig a chyson o reolaethau swyddogol rhag gallu gweithredu ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Er enghraifft, mae cyfeiriadau mewn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE a ddargedwir ar hyn o bryd at swyddogaethau deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd wedi'u diwygio i fod yn arferadwy yn lle hynny gan Ysgrifennydd Gwladol y DU neu awdurdod priodol Gweinyddiaethau Datganoledig y DU. Gelwir y rhain yn ddiwygiadau gweithredol.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214413

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **204- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 2 Tachwedd 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 11/11/2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o baragraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau presennol a ddargedwir gan yr UE (fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig) sy'n llywodraethu rheolaethau swyddogol ar fewnforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr, gan gynnwys bwyd a mewnforion eraill sy'n berthnasol i'r gadwyn bwyd-amaeth – a elwir ar y cyd yn nwyddau 'i sicrhau iechyd (pobl) anifeiliaid a phlanhigion'.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig ganlynol:

- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion cyfreithiol sy'n codi yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd y byddent – heb eu diwygio – yn atal y system reolaethau swyddogol bresennol, sefydledig a chysonedig rhag gallu gweithredu ar ôl diwedd y Cyfnod Trosglwyddo. Gelwir y rhain yn ddiwygiadau gweithredol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 6 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol a deddfwriaethol i Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr un pryd, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu arfer rhai swyddogaethau mewn perthynas â Phrydain Fawr – a gwneud rheoliadau ar ei chyfer – gyda chydsyniad Gweinidogion yr Alban a Chymru fel ei gilydd.

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

O ran y pwynt hwn, mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn dymuno tynnu sylw at y sylwebaeth ganlynol yn Natganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: "Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Anifeiliaid, Iechyd Anifeiliaid Dŵr, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Deunydd Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **11 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**RhS30C –** Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron Senedd Cymru.

**Rheoliadau Anifeiliaid, Iechyd Anifeiliaid Dŵr, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Deunydd Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

**Amrywogaethau planhigion a marchnata hadau a deunydd lluosogi eraill**

<u>Deddfwriaeth ddomestig</u>

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1220);
- Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Diwygio etc) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/131);
- Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/162);
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/809);

<u>Deddfwriaeth yr UE</u>

- Penderfyniad 2005/834/EEC y Cyngor ar gyfatebiaeth archwiliadau o arferion cynnal amrywogaethau a gynhelir rhai trydydd gwledydd;

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1106 ar drefnu arbrawf dros dro o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 2002/54/EC a 2002/57/EC o ran cyfradd wirio swyddogol archwiliadau maes o dan oruchwyliaeth swyddogol ar gyfer hadau sylfaenol, hadau wedi'u bridio o genedlaethau cyn hadau sylfaenol a hadau ardystiedig.

**Adnabod ceffylau**

- Rheoliadau Ceffylau (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/591);

- Rheoliadau Ceffylau (Mynediad Rhydd i Gystadlaethau) 1992 (O.S. 1992/3044).

**TSEs a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid**

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018 (O.S. 2019/170);

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2019 (O.S. 2019/1220);

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 (O.S. 2019/1229);

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran ABPs a chynhyrchion deilliedig na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl;

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 142/2011 sy'n rhoi Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar waith, sy'n gosod rheolau iechyd o ran ABPs a chynhyrchion deilliedig na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl.

**Teithio ag Anifeiliaid Anwes**

Deddfwriaeth ddomestig

- Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (O.S 1974/2211);

- Gorchymyn Symud Anifeiliaid Anwes anfasnachol 2011 (O.S. 2011/2883);

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2018/772 ar 21 Tachwedd 2017 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â mesurau iechyd ataliol ar gyfer rheoli haint Echinococcus multilocularis mewn cŵn, a diddymu Rheoliad Dirprwyedig (UE) Rhif 1152/2011;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/878 ar 18 Mehefin 2018 sy'n mabwysiadu'r rhestr o Aelod-wladwriaethau, neu rannau o diriogaeth Aelod-wladwriaethau, sy'n cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer categoreiddio a nodir yn Erthygl 2(2) a (3) o Reoliad Dirprwyedig (UE) 2018/772 ynghylch cymhwyso mesurau iechyd ataliol ar gyfer rheoli haint Echinococcus multilocularis mewn cŵn;

**Cynhyrchion Morloi**

- Rheoliadau Cynhyrchion Morloi (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2018 (O.S. 2018/1034);

**Iechyd Anifeiliaid y Dŵr**

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/451);

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S.2019/452);

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr (Cymru a Lloegr) 2009 (O.S. 2009/463).

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1251/2008 sy'n rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC ar waith o ran amodau a gofynion ardystio ar gyfer gosod ar y farchnad a mewnforio anifeiliaid dyframaethu a'u cynhyrchion i'r Gymuned a gosod rhestr o rywogaethau fector;

- Penderfyniad y Comisiwn 2008/392/EC sy'n rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC ar waith o ran tudalen wybodaeth ar y Rhyngrwyd i sicrhau bod gwybodaeth am fusnesau cynhyrchu dyframaeth a sefydliadau prosesu awdurdodedig ar gael drwy ddulliau electronig;

- Penderfyniad y Comisiwn 2008/896/EC ar ganllawiau at ddibenion y cynlluniau gwyliadwriaeth iechyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar risg y darperir ar eu cyfer yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC;

- Penderfyniad y Comisiwn 2008/946 sy'n rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC ar waith o ran y gofynion ar gyfer cwarantin anifeiliaid dyframaethu;

- Penderfyniad y Comisiwn 2009/177/EC sy'n rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC ar waith o ran rhaglenni gwyliadwriaeth a dileu a statws di-glefyd Aelod-wladwriaethau, parthau a chompartmentau;

- Penderfyniad y Comisiwn 2010/221/EU sy'n cymeradwyo mesurau cenedlaethol ar gyfer cyfyngu ar effaith clefydau penodol mewn anifeiliaid dyframaethu ac anifeiliaid dyfrol gwyllt yn unol ag Erthygl 43 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC;

- Penderfyniad y Comisiwn (UE) 2015/1554 sy'n gosod rheolau ar gyfer rhoi Cyfarwyddeb 2006/88/EC ar waith o ran dulliau gwyliadwriaeth a diagnostig.

**Bridio Anifeiliaid**

- Rheoliadau Bridio Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/117).

**Clefydau egsotig ar anifeiliaid**

- Rheoliadau Clefydau Egsotig (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018 (O.S. 2018/1410);

<u>Deddfwriaeth yr UE</u>

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/709/EU ynghylch mesurau rheoli iechyd anifeiliaid sy'n ymwneud â chlwy'r moch.

**Adnabod Da Byw**

<u>Deddfwriaeth ddomestig</u>

- Rheoliadau Da Byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/814)

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cynhyrchion cig eidion a chig eidion

- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1850/2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer ardystio hopys a chynhyrchion hopys
- Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefn gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau ailddatgan sy'n ymwneud â swyddogaethau a drosglwyddwyd ac y cytunwyd arnynt yn y ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE flaenorol a amlinellir uchod.

Mae'r OSau presennol sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â Chymru heb lyffethair a rhoi'u cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaethau hynny sy'n ymwneud â Chymru. Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu harfer gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i sbarduno'r gofyn i ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 os bydd Bil Senedd Cymru am ddiddymu neu newid y swyddogaethau hynny yn y dyfodol.

Mae gan y swyddogaethau cydredol a geir yn y Rheoliadau y potensial i sbarduno'r gofynion cydsynio yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac y gallent felly gyfyngu ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") yn cadw cyfraith ddomestig sy'n deillio o'r UE ac yn ymgorffori cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwysadwy i gyfraith ddomestig ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ("cyfraith yr UE a ddargedwir"). Pe na bai cyfraith yr UE yn cael ei diwygio, ni fedrai weithredu'n gywir. Gwneir yr offeryn hwn o dan y pwerau yn Adran 8, ymhlith eraill, y Ddeddf Ymadael i gywiro'r diffygion hyn yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid a dŵr ac amrywogaethau planhigion a hadau ac i wneud diwygiadau sy'n rhoi Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon ("y Protocol") ar waith, a'r diwygiadau diweddaraf sydd wedi'u gwneud i Reoliadau'r UE ers gwneud OSau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE.

O ran adnabod ceffylau, mae dau OS Ymadael â’r UE a dau ddarn o ddeddfwriaeth ddomestig yn yr UE a’r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gynnal safonau uchel o ran bioddiogelwch ceffylau, gorfodi effeithiol, diogelwch bwyd, atal twyll a lles ceffylau;

O ran iechyd da byw, ceir dau ddarn o ddeddfwriaeth UE a ddargedwir a thri OS Ymadael â’r UE ar gyfer atal, rheoli a dileu Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (“TSEs”) mewn gwartheg, defaid a geifr, ac ar gyfer defnyddio a gwaredu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a chynnyrch sy’n deillio ohonynt. Mae’r offeryn hwn hefyd yn cyfeirio at drefniadau mewnforio dros dro arbennig ac yn gwneud newidiadau gweithredol i bum diwygiad diweddar i gyfraith yr UE ar Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a TSEs y cytunwyd arnynt yn yr UE yn rhy hwyr i’r OSau Ymadael â’r UE cynharach a restrir uchod allu ymdrin â nhw;

O ran adnabod ac olrhain gwartheg, defaid a geifr, ceir un OS Ymadael â’r UE sy’n diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy’n gosod y rheolau ar gyfer adnabod ac olrhain, gan gynnwys y cofnodion y mae’n rhaid i geidwaid eu cadw, sut mae gofyn iddynt roi gwybod am symudiadau’u hanifeiliaid a sut y mae gofyn i awdurdodau cymwys canolog gofnodi’r wybodaeth ar gronfeydd data canolog;

O ran iechyd y dŵr, mae saith darn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn cael eu diwygio, sy’n rhoi’r fframwaith cyffredinol a ddisgrifir yng Nghyfarwyddeb 2006/88/CE ar waith sy’n sefydlu fframwaith ar gyfer bioddiogelu rhag clefydau pysgod a physgod cregyn trwy osod y gofynion ar gyfer dod ag anifeiliaid dyframaethu a’u cynnyrch i’r farchnad; mesurau rheoli clefydau; mewnforio; ac ardystio iechyd;

Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2009 (“Rheoliadau 2009”) sy’n rhoi gofynion Cyfarwyddeb 2006/88/CE ar waith yng Nghymru a Lloegr o ran yr amodau a’r gofynion ardystio ar gyfer rhoi anifeiliaid dyframaethu a’u cynnyrch ar y farchnad ac ar gyfer eu mewnforio i’r Gymuned a gosod rhestr o rywogaethau fector. Mae Rheoliadau 2009 yn darparu fframwaith ar gyfer awdurdodi a chofrestru busnesau dyframaethu. Maent hefyd yn rhestru’r gofynion o ran iechyd, ardystio a chludo anifeiliaid dyframaethu a’u cynnyrch er mwyn gallu masnachu ynddynt ac atal clefydau; rhwymedigaethau ynghylch hysbysu a rheoli achosion o glefyd; gofynion ar gyfer cofrestru datganiadau di-glefyd; a chlefydau hysbysadwy sy’n dod o dan fesurau cenedlaethol;

O ran gofynion marchnata hadau, deunydd lluosogi eraill a deunydd plannu gan gynnwys deunydd atgenhedlu coedwigoedd, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth yr UE a phedwar darn o ddeddfwriaeth ddomestig Ymadael â’r UE a wnaed cynt. Mae Rheoliadau 2020 yn cymhwyso’r rheolau normal ar gyfer masnachu hadau, deunydd lluosogi eraill, deunydd plannu a deunydd atgenhedlu coedwigaeth i wledydd eraill os cydnabyddir bod eu prosesau ardystio yn gyfatebol.

O ran mesurau rheoli milfeddygol, ceir dau ddarn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a dau ddarn o ddeddfwriaeth sy’n bod eisoes sy'n sicrhau bod symudiadau anifeiliaid anwes yn yr

UE a thrydydd gwledydd yn diogelu iechyd anifeiliaid a phobl a'u bod yn parhau i fodloni'r amodau penodol a nodir yn neddfwriaeth berthnasol yr UE;

O ran rheoli clefydau anifeiliaid, ceir un darn o ddeddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwysadwy ac un darn o ddeddfwriaeth ddomestig Ymadael â'r UE a wnaed cynt sy'n ymwneud ag ymateb i achos o glefyd egsotig hysbysadwy ar anifeiliaid er mwyn rheoli a dileu clefyd, dangos statws di-glefyd, adfer masnach normal a gweithio i helpu adferiad cymunedau lleol.

O ran bridio anifeiliaid, ceir un OS Ymadael â'r UE sy'n sicrhau bod cymdeithasau bridiau'r UE yn dod o dan yr un broses gydnabod a rhestru gan y DU â chyrff bridio trydedd gwledydd; bydd hynny fel y drefn y bydd yr UE yn ei chymhwyso i gymdeithasau bridiau'r DU ar ôl y Cyfnod Pontio gan sicrhau felly drefniant gyfatebol. Daw'r newidiadau i rym o 1 Gorffennaf 2021; a

Yn olaf, ceir un OS Ymadael â'r UE sy'n gwahardd mewnforion cynnyrch morloi a'r fasnach ynddynt. Ceir rhai eithriadau ar gyfer pobloedd brodorol ac at ddefnydd personol teithwyr i'r DU, gyda gofyn am ddogfennau i gyd-deithio â llwythi o gynnyrch morloi sy'n tystio y cydymffurfir ag amodau'r eithriad.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y gofynion i'w gweld yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214475/contents

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad ag ac ar ran Cymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniant y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **205 - Rheoliadau Anifeiliaid, Iechyd Anifeiliaid Dyfrol, Rhywogaethau Estron Ymledol, Deunydd a Hadau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Ymadael yr UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 2 Tachwedd 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Ydy |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Wythnos yn dechrau 16 Tachwedd 2020 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 19 Tachwedd 2020 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael"), a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Ddeddf Ymadael yn cadw cyfraith ddomestig sy'n deillio o'r UE ac yn ymgorffori cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE i gyfraith ddomestig ar ddiwedd y Cyfnod pontio ("cyfraith yr UE a ddargedwir"). Pe na bai cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei diwygio, ni fyddai'n gweithredu'n gywir. Diben yr offeryn hwn yw sicrhau bod deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid dyfrol, rhywogaethau estron ymledol, deunydd a hadau lluosogi planhigion yn parhau i fod yn weithredol yn dilyn y Cytundeb Ymadael, y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("y Protocol"), a diweddariadau diweddar i gyfraith yr UE.

Mae'r rheoliadau a chyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE a ddiwygiwyd gan yr offeryn hwn yn ymwneud â'r meysydd polisi a ganlyn: Adnabod ceffylau; TSE a sgil-gynhyrchion anifeiliaid; adnabod da byw; iechyd anifeiliaid dyfrol; clefydau anifeiliaid egsotig; amrywogaethau planhigion a marchnata hadau a deunydd planhigion arall; teithio gan anifeiliaid; bridio anifeiliaid; a chynhyrchion morloi. Mae'r gyfraith ddiwygiedig yn cynnwys Offerynnau Statudol blaenorol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE, a wnaed yn 2018 a 2019 i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE.

Mae'r rhestr lawn o'r ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau hyn wedi'i nodi yn Natganiad Llywodraeth Cymru (yn ddibynnol ar sylwadau a wneir isod), ac mae wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 11 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi bod y paragraff olaf ond un yn natganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn rhoi linc i'r rheoliadau anghywir. Mae'r linc yn y datganiad ysgrifenedig yn mynd i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, yn hytrach na'r Rheoliadau hyn.

2. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi nad yw datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ddau gyfeiriad a wnaed ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU at ddeddfwriaeth a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn. Nid yw'n eglur pam na chyfeirir at y ddeddfwriaeth ganlynol:

    - Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 577/2013 ar y dogfennau adnabod enghreifftiol ar gyfer symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol, sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd a fformat, cynllun a gofynion iaith y datganiadau sy'n tystio o ran cydymffurfio â rhai amodau y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor; a
    - Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (O.S. 2019/527).

3. Nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol

Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Nodir bod y datganiad yn darparu'r canlynol:

*"Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny. Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol*."

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn argymell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt; ac y dylid gofyn am wybodaeth a diweddariadau pellach o ran cynnydd y trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â'r Gorchymyn adran 109 y cyfeirir ato uchod.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 11 Tachwedd 2020, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LG/3711/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Tachwedd 2020

Annywl Mick

Yn dilyn cwblhau'r Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad a gynhaliwyd ar 13 Hydref yn Nhŷ'r Cyffredin, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar y canlyniad ac i gadarnhau'r gwelliannau a wnaed i Fil Pysgodfeydd y DU.

Ar 6 Hydref, cytunodd y Senedd y dylai darpariaethau'r Bil Pysgodfeydd, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Ysgrifennais atoch cyn y ddadl gan nodi'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd i'w trafod yn ystod y Cyfnod Adrodd. Ymdriniais hefyd â rhai ohonynt yn fy sylwadau agoriadol yn ystod y ddadl. Gwnaed y gwelliannau canlynol gan y Llywodraeth yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae rhifau'r cymalau a rhifau'r gwelliannau a ddefnyddir isod yn cyfateb i'r rhifau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen "Ystyried y Bil (Cyfnod Adrodd)" – adroddiad dyddiol Tŷ'r Cyffredin, dyddiedig 13 Hydref, sydd i'w gweld yma:
https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/5801/0181/amend/fisheries_daily_rep_1012.pdf

Cymal 8 newydd – mae'r cymal newydd hwn yn rhoi pwerau i'r awdurdodau trwyddedu pysgod môr drefnu i awdurdod arall o'r fath arfer unrhyw un o'u swyddogaethau pysgodfeydd neu swyddogaethau symud cynnyrch. Gwnaed gwelliannau canlyniadol hefyd i gymal 37 (gwelliant 6), cymal 47 (gwelliant 8), cymal 49 (gwelliannau 9, 10 ac 11), cymal 51 (gwelliant 12), atodlen 3 (gwelliant 25 a 26), atodlen 8 (gwelliant 32).

O dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 caiff Gweinidogion Cymru ymrwymo i drefniant gydag awdurdod perthnasol ar gyfer y swyddogaethau i un ohonynt gael eu harfer gan y llall. Mae awdurdod perthnasol yn cynnwys un o Weinidogion y Goron ac unrhyw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru neu Loegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, nid yw adran 83 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymrwymo i drefniant gyda Gweinidogion yr Alban nac adran Gogledd Iwerddon. Y gobaith yw y gallai'r math hwn o drefniant fod yn effeithlon ac arbed costau. Mae'r diwygiadau a wnaed yn ystod y Cyfnod Adrodd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymrwymo i drefniadau gweinyddol gyda Gweinidogion yr Alban, adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ar gyfer arfer swyddogaethau pysgodfeydd a swyddogaethau symud cynnyrch pysgodfeydd.

Gallwn ragweld sefyllfaoedd yn y dyfodol lle gallem ddymuno i Weinyddiaethau Datganoledig eraill gyflawni swyddogaethau ar ein rhan, er enghraifft, at ddibenion rheoli a gorfodi, ar gyfer teithiau gwyddoniaeth neu lle mae daearyddiaeth yn gwneud trefniant o'r fath yn fwy synhwyrol.

Cymal 10 newydd - Mae'r cymal newydd hwn yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymdrin â dehongli deddfwriaeth Cymru, o ganlyniad i ehangu cymhwysedd deddfwriaethol yng nghymal 43. Gwnaed gwelliannau canlyniadol hefyd i gymal 51 (gwelliant 13).

Bwriedir i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (yn gyffredinol) fod yn gymwys i'r holl ddeddfwriaeth a wneir gan y sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Heb ei diwygio, ni fyddai'r Ddeddf yn gymwys i Offerynnau Statudol (OSau) Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Bil. Mae'r diwygiadau hyn yn diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i ddarparu y bydd yn gymwys i OSau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Bil Pysgodfeydd. Bydd ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ymdrin â materion pysgodfeydd ym mharth Cymru gyfan yn ymestyn yn awtomatig y defnydd o Rannau 1 a 2 o Ddeddf 2019 i gynnwys Deddfau'r Senedd a wneir o dan y cymhwysedd ehangach hwnnw (gan eu bod yn berthnasol i holl ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru).

Atodlen 8 - Diben paragraff 9(5) o'r Atodlen hon yw atal y pwerau gwneud rheoliadau ym mharagraffau 6 ac 8 rhag cael eu defnyddio i addasu'r swyddogaethau trwyddedu a roddir gan y Bil. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod paragraff 9(5) yn diogelu swyddogaethau'r holl awdurdodau trwyddedu pysgod môr (gwelliant 33).

Atodlen 10 – Gwnaed gwelliant (gwelliant 46) sy'n ei gwneud yn drosedd torri gorchymyn o dan adran 134B newydd o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA) (manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr: rhanbarth môr mawr Cymru). Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 1 Hydref, roedd angen y gwelliant i gywiro hepgoriad drafftio anfwriadol cynharach.

Atodlen 10 - Diwygiwyd adran 189 o'r MCAA i ddileu cyfyngiad diangen ar ddefnydd Gweinidogion Cymru o'r pŵer hwnnw i wneud Gorchymyn (gwelliant 49). Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 1 Hydref, o dan adran 189 caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, i reoli'r defnydd o bysgodfeydd môr. Ar hyn o bryd, mae isadran (2) yn cyfyngu ar argaeledd y pŵer hwnnw, fel na chaiff Gweinidogion Cymru ond ei ddefnyddio os na ellir nodi pŵer cyfreithiol arall. Mae'r cyfyngiad hwn yn ddiangen ac felly ceisiais ei ddileu.

Atodlen 11 – Mae'r gwelliant hwn (gwelliant 54) yn egluro bod Atodlen 11 yn cynnwys darpariaethau canlyniadol.

Atodlen 11 - Gwnaed gwelliant sy'n diddymu darpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â dal penfras ym Môr y Gogledd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig fabwysiadu ei mesurau ei hun mewn perthynas â phenfras ym Môr y Gogledd (gwelliant 55).

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r holl welliannau hyn oherwydd ein bod o'r farn eu bod yn gwella'r Bil. Felly, erys ein hargymhelliad i'r Senedd gydsynio i'r Bil.

Fel arfer, byddai angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach ar welliannau sy'n ymwneud â Threfniadau Asiantaethau (y cymal 8 newydd), adran 189 (2) o MCAA (Atodlen 10) ac i Atodlen 11 (gwelliant 55) oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth berthnasol o dan Reol Sefydlog 29 am y tro cyntaf. Mae'r gwelliannau eraill a wneir yn ystod y Cyfnod Adrodd yn ymwneud â darpariaethau a nodwyd yn flaenorol yn y memoranda sydd eisoes yn bodoli ac nid ydynt yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf. Ysgrifennais at y Pwyllgorau a'r Aelodau i esbonio ein bod yn ceisio'r gwelliannau hyn cyn y ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac fe'u hamlinellwyd ar lafar i'r Siambrau yn ystod y ddadl i sicrhau bod yr Aelodau yn cael gymaint o wybodaeth â phosibl.

Cafodd y gwelliannau a wneir i'r Bil gan Dŷ'r Cyffredin (ar draws pob cyfnod) eu hystyried gan Dŷ'r Arglwyddi ar 12 Tachwedd ac ni chafodd unrhyw gwelliannau eraill eu gwneud. Bydd y Bil yn symud ymlaen at Gydsyniad Brenhinol yn awr.

Er gwybodaeth, mae Senedd y DU wedi cyhoeddi dogfen sy'n cynnwys yr holl welliannau a wnaed i'r Bil yn ystod pob cyfnod yn Nhŷ'r Cyffredin ac rwyf wedi darparu dolen i'r ddogfen yma: https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/143/5801143.pdf

O ystyried cyfnod y Bil nid oes digon o amser i baratoi a gosod Memorandwm a galluogi craffu, a dywedais wrth y Pwyllgorau a'r Aelodau y byddwn yn ysgrifennu i gadarnhau canlyniad y cyfnod hwn. Felly, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Copi at holl Aelodau'r Senedd

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

17 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 12 Tachwedd ynghylch etholiad y Senedd yn 2021 ac adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau.

Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r bwriad y tu ôl i sefydlu'r Grŵp. Rwyf hefyd yn rhannu eich barn nad yw'n briodol bod y cyfryngau wedi cael gwybod am agweddau ar waith y Grŵp. Digwyddodd hyn heb gytundeb Llywodraeth Cymru.

Nid wyf yn cytuno bod diffyg tryloywder wedi bod. Rhoddais wybod i'r Senedd fod y Grŵp wedi cael ei sefydlu, cyhoeddais yr adroddiad a baratôdd ar fy nghyfer a threfnais ddadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd yn llwyr ag arferion hirsefydledig o ddwyn gwaith Llywodraeth Cymru i sylw'r Senedd ar adegau priodol gan ddiogelu ystyriaethau a thrafodaethau preifat a gynhelir yn y cyfamser.

Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp i'w gael ynghlwm. Mae'n nodi nad oedd y Grŵp ond i weithredu ar yr amod na fyddai deunyddiau'r Grŵp yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Ar y sail hon, rwy'n credu bod yr adroddiad sydd wedi'i gyhoeddi yn cynnig crynodeb addas o waith y Grŵp.

O ran deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag etholiadau, mae'r Senedd eisoes wedi pasio'r Gorchymyn  Anghymhwyso sy'n rhan o'r ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer yr etholiad. Rydym yn bwriadu gosod diwygiadau i'r Gorchymyn Ymddygiad yn ddiweddarach y mis hwn. Rydym hefyd yn paratoi Bil drafft a fyddai'n caniatáu i etholiad y Senedd gael ei ohirio pe bai angen yn sgil y coronafeirws. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno Bil tebyg. Rydym yn cynllunio ar y sail y gallai Bil Llywodraeth Cymru fod yn barod i'w gyflwyno i'r Llywydd erbyn dechrau mis Ionawr, pe bai angen.

Rydych yn cyfeirio at ddau bwynt penodol yn eich llythyr. O ran y pwynt cyntaf am orsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif diogel, ar hyn o bryd, rydym yn credu y byddai'r pwerau presennol yn ddigonol, ond rydym yn parhau i adolygu hyn gyda rhanddeiliaid ac yn barod i wneud rhagor o newidiadau i'r ddeddfwriaeth os bydd angen gwneud hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran yr ail bwynt, pe byddem yn penderfynu parhau â cheisio cyflwyno pŵer newydd i'r Llywydd allu amrywio dyddiad yr etholiad y tu hwnt i'r hyn y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, byddem yn ystyried a fyddai unrhyw drefniadau diogelu – fel pleidlais yn y Senedd – yn briodol. Dywedaf ragor am y pŵer hwn yn ystod y ddadl.

Bydd y ddadl yn gyfle i Aelodau gyflwyno eu safbwyntiau. Bydd y Gweinidogion wedyn yn ystyried y safbwyntiau hynny ymhellach wrth fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau ac at ymgysylltu ymhellach â'r Pwyllgorau wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**Grŵp Cynllunio Etholiadau Llywodraeth Cymru**
**Chylch Gorchwyl**

## Cyd-destun

Bwriedir cynnal etholiadau nesaf y Senedd ar 6 Mai 2021.

Oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil yr argyfwng coronafeirws, gohiriwyd yr etholiadau Llywodraeth Leol yn Lloegr, a'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr, a oedd i'w cynnal ar 7 Mai 2020, a bellach fe gynhelir yr etholiadau hyn ar 6 Mai 2021.

Mae'r Prif Weinidog yn awyddus i gael cyngor ar y trefniadau ymarferol a allai fod yn angenrheidiol os bydd cyfyngiadau'r pandemig, megis cadw pellter cymdeithasol, yn parhau ar waith yn 2021. Mae Llywodraeth Cymru am gael barn y rheini a fydd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd etholiadol, yn ogystal â'r rheini a fydd yn gweinyddu etholiadau, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl ystyried y goblygiadau i'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol. Mae'r Grŵp Cynllunio Etholiadau wedi cael ei alw ynghyd i hwyluso'r gwaith hwn,  gan ategu gwaith grwpiau eraill sy'n bodoli eisoes.

Y nod cyffredinol yw sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac ar yr un pryd diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae'r broses ar gyfer cynnal etholiadau wedi ei rhagnodi'n fanwl mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Pe bai angen unrhyw addasiadau neu drefniadau gwahanol, gallai fod angen eu gweithredu drwy gyflwyno deddfwriaeth yn y Senedd, a byddai'n rhaid gwneud hynny mewn modd amserol. Byddai angen amser cynllunio sylweddol hefyd ar gyfer y trefniadau ymarferol.

Gallai fod angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau y gall yr etholiad fodloni gofynion iechyd y cyhoedd, hyd yn oed os bydd yn cael ei gynnal ar 6 Mai.

Felly, gyda chymorth y Grŵp hwn, rydym yn gobeithio casglu sylwadau dros yr haf er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau, a fyddai o fantais ym marn yr aelodau, yn gallu cael eu hystyried erbyn mis Medi, ac y gall y gwaith o'u gweithredu fynd rhagddo. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth alluogi sy'n ymwneud â chynnal yr etholiad a'r rheolau anghymhwyso, er mwyn sicrhau bod y rhain ar waith mewn da bryd cyn mis Mai. Bydd yn ymgynghori arnynt dros yr haf.

## Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd yn fisol. Os na all aelod fod yn bresennol, mae croeso iddo enwebu dirprwy.

## Cyfathrebu

Ni fwriedir i'r cyfarfodydd hyn fod yn gyhoeddus, ac nid oes bwriad cyhoeddi deunydd ohonynt ar gyfer y cyhoedd. Bydd crynodeb o'r pwyntiau allweddol o'r cyfarfodydd yn cael ei rannu ag aelodau'r Grŵp, ond ni ddylid rhannu'r wybodaeth honno ag eraill y tu allan iddo.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

12 Tachwedd 2020

Annwyl Mark

**Etholiad y Senedd yn 2021 ac Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau**

Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn ystyried effaith pandemig COVID-19 ar etholiad y Senedd a drefnwyd ar gyfer 6 Mai 2021, a hynny oherwydd ein cyfrifoldebau dros graffu ar is-ddeddfwriaeth a'n cylch gwaith deddfwriaethol ehangach mewn perthynas â Biliau.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru o’r farn y dylai etholiad y Senedd fynd yn ei flaen ar y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn derbyn na ellir rhagweld beth fydd yr union sefyllfa o ran iechyd cyhoeddus erbyn mis Mai nesaf.

Yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020, buom yn trafod **Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau**, y rhoddwyd gwybod i Aelodau o'r Senedd ei fod wedi’i gyhoeddi yn eich **datganiad ysgrifenedig** dyddiedig dydd Gwener 6 Tachwedd.

Er ein bod yn cydnabod ac yn croesawu’r bwriad wrth wraidd sefydlu’r Grŵp – “i ystyried effaith bosibl y mesurau coronafeirws ar y gwaith o weinyddu’r etholiad ac, yn benodol, unrhyw oblygiadau ar gyfer y ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy’n sail iddo” – rydym yn pryderu am y diffyg tryloywder ynghylch y gwaith hwn.

Gwnaethoch **gyhoeddi** sefydliad y Grŵp ar 15 Mehefin 2020 ac eto nid yw'r cylch gorchwyl ar gael i'r cyhoedd. At hynny, nid yw’n briodol yn ein barn ni fod y cyfryngau yng Nghymru wedi cael gwybod cyn y Senedd am brif agweddau ar gyfansoddiad, rhaglen waith a chasgliadau'r Grŵp.

Rydym yn derbyn bod adroddiad y Grŵp wedi cael ei gyhoeddi bellach, ond credwn y dylid sicrhau bod cylch gorchwyl llawn a chofnodion manwl pob un o'r pum cyfarfod a gynhaliwyd ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

O ran is-ddeddfwriaeth y gallai fod ei hangen yn y dyfodol sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer etholiad nesaf y Senedd, mae'n bwysig i ni gael cymaint o rybudd â phosibl o ran pryd y caiff deddfwriaeth o'r fath ei gosod gerbron y Senedd. Byddwn am roi sylw manwl hefyd i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol y gallai fod angen ei chyflwyno.

Rydym yn ymwybodol eich bod yn bwriadu rhoi datganiad yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf (dydd Mawrth 17 Tachwedd) a fydd yn amlinellu camau nesaf Llywodraeth Cymru ar ôl cyhoeddi adroddiad y Grŵp. Yn y datganiad hwnnw, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu cymaint o fanylion â phosibl ynglŷn â'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth berthnasol yn y dyfodol sydd o dan ystyriaeth, a'r amseriad ar gyfer hynny, yn ogystal â thrafod dau fater arall a amlinellir isod.

O ran sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif yn gweithio'n ddiogel, nodwn y daethpwyd i gonsensws a bod y Grŵp yn cytuno'n gyffredinol "y **dylai'r** pwerau presennol fod yn ddigonol yn gyffredinol i roi trefniadau ar waith yn lleol ac na fyddai angen newid deddfwriaethol" (ein pwyslais ni). Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw'r pwerau presennol *yn* ddigonol ac nad oes angen newid deddfwriaethol i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif yn gweithio'n ddiogel.

O ran estyniad posibl i bŵer y Llywydd i amrywio dyddiad etholiad nesaf y Senedd hyd at fis (o dan adran 4(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*), rydym yn cydnabod na ddaethpwyd i gonsensws ar y mater hwn ac mai dim ond fel mesur wrth gefn *in extremis* y byddai'r rhan fwyaf o'r pleidiau gwleidyddol yn barod i ystyried hyn. Nodwn fod gan y Llywydd ddisgresiwn llawn wrth benderfynu o dan ba amgylchiadau y byddai'n briodol defnyddio'r pŵer yn Neddf 2006. Yn ein barn ni, y Senedd a ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw opsiwn amgen yn lle arfer y pŵer presennol hwn a fyddai'n newid dyddiad etholiad nesaf y Senedd o ganlyniad i'r pandemig.

Yn ogystal â'ch ateb i'r pwyntiau hyn yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd, byddem yn gwerthfawrogi ymateb llawn i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Elin Jones AS.

Yn gywir,



**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/399/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref ynghylch yr ymgynghoriad ar y Cynllun Taliad Sylfaenol a Fframwaith Deddfwriaethol Cymorth Gwledig 2021.

Rydych yn tynnu sylw at y pryderon a fynegwyd gan NFU Cymru ym mis Awst ynghylch yr angen am eglurhad a chadarnhad o'r rheolau fydd yn berthnasol i ffermwyr yn 2021. Rydym wedi trafod yn fanwl gyda rhanddeiliaid gan deimlo ei fod yn bwysig i ystyried cynifer o safbwyntiau â phosibl cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Gan ein bod bron â chyrraedd diwedd y cyfnod gweithredu, rydym yn anelu at wneud cyhoeddiadau i gadarnhau unrhyw newidiadau maes o law.

Derbyniodd Bil Amaethyddiaeth y DU Gydsyniad Brenhinol ar 11 Tachwedd, gan roi rhywfaint o sicrwydd i'r sector. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor mai fy mwriad o hyd yw cyhoeddi Papur Gwyn erbyn diwedd y flwyddyn gan baratoi'r ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth Cymru yn y Senedd nesaf.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y Bil Gwasanaethau Ariannol

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan reol sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Ariannol ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2020. Mae'r Bil a dogfennau cysylltiedig ar gael yma: https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/financialservices.html

### Amcanion Polisi

3. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan mai'r amcanion polisi yw sicrhau bod fframwaith rheoleiddiol y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu'n effeithiol i'r Deyrnas Unedig wedi iddi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried bod y Bil yn gam cyntaf pwysig mewn perthynas â chymryd cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau ariannol, gan sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cynnal y safonau rheoleiddiol uchaf ac yn parhau i fod yn ganolfan ariannol fyd-eang agored a dynamig.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil hwn gan Drysorlys Ei Mawrhydi (Trysorlys EM) ac mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ceisio:

   - sicrhau bod fframwaith rheoleiddiol y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu'n effeithiol i'r Deyrnas Unedig wedi iddi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
   - gwella safonau rheoleiddio darbodus blaengar y Deyrnas Unedig a hybu sefydlogrwydd ariannol drwy alluogi gweithrediad y gyfres lawn o safonau Basel III, cyfundrefn rheoleiddio ddarbodus ar gyfer cwmnïau buddsoddi, a rhoi'r pwerau angenrheidiol sydd eu hangen ar yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i oruchwylio trosglwyddiad trefnus oddi wrth y meincnod Cyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain (LIBOR)
   - hybu tryloywder rhwng marchnad y Deyrnas Unedig a marchnadoedd rhyngwladol drwy gyflwyno mecanwaith newydd i symleiddio'r broses o roi cronfeydd buddsoddi tramor ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig, a gwireddu ymrwymiad Gweinidogol i ddarparu mynediad tymor hir rhwng y Deyrnas Unedig a Gibraltar i gwmnïau gwasanaethau ariannol.
   - cyflwyno nifer o fesurau i gynnal fframwaith rheoleiddio gwasanaethau ariannol effeithiol a marchnadoedd cyfalaf cadarn.
   - gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau seibiant dyledion.

**Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

5. Mae Deddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018 wedi gwneud darpariaeth ar gyfer creu cynllun seibiant dyledion. Mae'r cynllun yn cynnwys dwy ran: Lle i Anadlu[1] a'r Cynllun Ad-dalu Dyled Statudol (SDRP).

6. Bydd Cymal 32 yn diwygio adrannau 6 a 7[2] o Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018 i roi'r ystod llawn o'r pwerau sydd eu hangen ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddrafftio'r rheoliadau er mwyn gweithredu SDRP yn effeithiol.

7. Yn gryno, bydd y diwygiadau hyn yn caniatáu gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r SDRP a allai:
   a) orfodi credydwyr i dderbyn telerau ad-dalu diwygiedig;
   b) darparu mecanwaith codi tâl lle bydd credydwyr yn cyfrannu drwyddo at gost rhedeg y cynllun a'r cynlluniau ad-dalu; a
   c) cynnwys dyledion sy'n ddyledus i adrannau'r llywodraeth ganolog.

8. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi dyddiad penodol ar gyfer gweithredu'r SDRP, na dweud pryd y maent yn bwriadu gwneud y rheoliadau. Er hynny, bydd rhaid i unrhyw reoliadau, i'r graddau y maent yn darparu bod y cynllun SDPR yn gymwys i Gymru, gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddi, er mwyn i'r rheoliadau hynny fod yn gymwys yng Nghymru.

9. Mae Cymal 32 yn ymwneud â rheoli dyledion personol ac yn cynorthwyo unigolion i reoli eu dyledion, yn helpu i ddatrys anawsterau gydag ad-daliadau ac i ad-dalu yr hyn sydd yn ddyledus i gredydwyr mewn ffordd sy'n cael ei rheoli. Rhaid gofyn am gydsyniad oherwydd bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'i fod yn gwneud darpariaeth ynghylch materion sydd wedi eu datganoli. Mae pob un o ddarpariaethau eraill y Bil yn ymwneud â chadw gwasanaethau ariannol ac maent, oherwydd hynny, y tu allan i gymhwysedd y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Gwasanaethau Ariannol**

10. Bydd yr SDRP yn galluogi i unrhyw unigolyn ad-dalu ei ddyledion yn ôl amserlen y gellir ei rheoli, gydag amddiffyniadau cyfreithiol rhag unrhyw

---

[1] Mae rhan gyntaf y cynllun, Lle i Anadlu, yn cael ei gyflwyno drwy Reoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020.

[2] Mae adrannau 6 a 7 o Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cyngor ar sefydlu cynllun seibiant dyledion ac ystyried gwneud rheoliadau i sefydlu cynllun seibiant dyledion, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y cyngor hwnnw.

gamau gweithredu gan gredydwyr am gyfnod ei gynllun. Bydd hyn yn gyfle i bobl yng Nghymru, sy’n cael problemau â dyledion, i gael gwell rheolaeth ar eu materion ariannol. Bydd angen mewnbwn gan Lywodraeth Cymru ac ystod eang o randdeiliaid, wrth ddatblygu unrhyw gynllun SDRP.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth hon o fewn Bil y Deyrnas Unedig gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi datblygu'r rheoliadau a fydd yn caniatáu i ail ran y cynllun seibiant dyledion, h.y. yr SDRP, fod yn gymwys yng Nghymru yn amodol ar ystyriaeth lawn o fanylion unrhyw gynllun arfaethedig gan y Senedd a chymeradwyo'r rheoliadau sy'n ei weithredu.

**Goblygiadau ariannol**

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn y Bil sydd mewn cymhwysedd.

**Casgliad**

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth hon mewn Bil y Deyrnas Unedig er mwyn gallu datblygu'r rheoliadau a fydd yn caniatáu i ail ran y cynllun seibiant dyledion, h.y. yr SDRP gael ei weithredu. Pan gaiff ei weithredu, bydd yr SDRP yn cynnig cyfle i bobl yng Nghymru, sy'n cael problemau â dyledion, gymryd gwell rheolaeth dros eu harian a dod o hyd i lwybr cynaliadwy allan o ddyled.

14. Bydd rhaid i unrhyw reoliadau, i’r graddau y maent yn darparu ar gyfer bod y cynllun SDPR yn gymwys i Gymru, gael eu gosod gerbron y Senedd a’u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddi. Bydd hyn yn caniatáu i’r Senedd ystyried goblygiadau’r SDRP yng Nghymru yn llawn, ac ystyried a chymeradwyo’r rheoliadau, ac unrhyw ddiwygiadau (a allai fod yn y rheoliadau) i Fesur neu Ddeddf Senedd Cymru sydd eisoes yn bodoli.

**Jane Hutt AS**
**Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip**
**3 Tachwedd 2020**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon